



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Dulliau lleihau niwed ysmegu:

Adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth

Fersiwn 1.0

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/This document is available in English



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Manylion yr Adroddiad Adolygu Tystiolaeth

Teitl: Dulliau lleihau niwed ysmegu: Adolygiad cyflym o'r llenyddiaeth

Awduron: Laura Johnson, Kate Shiells, Amy Fox-McNally, Hannah Shaw

Dyddiad: Ionawr 2026

Fersiwn: 1.0

Cyhoeddi/Dosbarthu: Cyhoeddir y ddogfen hon ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Dyddiad adolygu: Chwefror 2029

Manylion y protocol: Mae'r protocol ar gael ar gais.



Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol	4
2. Cefndir a phwrpas	6
3 Dulliau.....	11
3.1 Meini Prawf Cymhwysedd.....	11
3.2 Dulliau chwilio	12
3.2.1 Chwiliadau cwmpasu	12
3.2.2 Chwilio am lenyddiaeth	12
3.3 Proses dethol a rheoli cofnodion astudio	13
3.3.1 Rheoli cofnodion astudio	13
3.3.2 Proses Dewis Astudiaethau	14
3.4 Arfarniad beirniadol	14
3.5 Echdynnu data.....	14
3.6 Dadansoddi Technegau Newid Ymddygiad	15
3.7 Crynhoi	15
4. Canlyniadau.....	17
4.1 Detholiad o'r Astudiaeth	17
4.2 Nodweddion yr astudiaethau	18
4.3 Arfarniad beirniadol	19
4.4 Dadansoddi Technegau Newid Ymddygiad	22
4.5 Canlyniadau synthesisau.....	23
4.5.1 Ymyriadau ymddygiadol yn unig	23
4.5.2 Ymyriadau ffarmacolegol (varenicline) ynghyd ag ymyriadau ymddygiadol	27
5. Trafodaeth	34
5.1 Crynodeb o'r dystiolaeth	34
5.2 Cryfderau a chyfyngiadau'r dystiolaeth sydd ar gael	36
5.3 Cryfderau a chyfyngiadau'r adolygiad cyflym hwn	37



5.4	Goblygiadau ar gyfer ymarfer a pholisi.....	38
5.5	Goblygiadau ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.....	40
6.	Casgliadau	40
7.	Cyfeiriadau	41
8.	Gwybodaeth ychwanegol	44
8.1	Atodiad 1.....	44
8.2	Atodiad 2.....	48



1. Crynodeb gweithredol

- Ysmygu yw prif achos clefydau a marwolaethau y gellir eu hatal yng Nghymru. Mae *Helpa Fi i Stopio*, yn unol ag argymhellion y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Gofal Iechyd (NICE) a Safonau Gofynnol y Gwasanaeth, ar hyn o bryd yn darparu cymorth yn seiliedig ar 'roi'r gorau iddi'n sydyn', lle mae'r cleient yn cytuno ar 'ddyddiad rhoi'r gorau iddi' ac ar ôl hynny ni fydd yn ysmygu mwyach (disgrifir hyn weithiau fel y rheol 'dim un pwff').
- Mae diddordeb cynyddol yn y cwestiwn a yw llwybrau lleihau niwed, fel ysmygu llai cyn rhoi'r gorau iddi, yn fwy effeithiol wrth leihau effeithiau niweidiol ysmygu ymhlith pobl nad ydynt eto'n barod i roi'r gorau iddi ac felly'n methu derbyn cymorth mewn model gwasanaeth rhoi'r gorau iddi'n sydyn.
- Nod yr adolygiad cyflym hwn oedd ychwanegu at ddau adolygiad Cochrane (Lindson Hawley *et al.*, 2016; Lindson *et al.*, 2019) drwy chwilio am dystiolaeth a gyhoeddwyd ers 2015 er mwyn deall 'Beth yw'r dystiolaeth ar gyfer dulliau gwahanol o 'leihau niwed' mewn gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu (yn hytrach na'r model 'rhoi'r gorau iddi' safonol cyfredol) o ran lleihau a/neu roi'r gorau i ysmygu yn y boblogaeth oedolion gyffredinol nad yw eto'n barod i roi'r gorau iddi?
- Roedd naw hap-dreial wedi'u hadrodd mewn 11 astudiaeth yn bodloni ein meini prawf cynnwys. Cynhaliwyd dau dreial yn y DU. Cafodd tystiolaeth ei chrynhai ar ffurf naratif yn seiliedig ar y math o ymyriad wedi'i adrodd yn y treialon: ymyriadau ymddygiadol yn unig (n=3); varenicline ynghyd ag ymyriadau ymddygiadol (n=2); a therapi disodli nicotin ynghyd ag ymyriadau ymddygiadol (n=4).
- Nid oedd tystiolaeth o set amrywiol o ymyriadau ymddygiadol yn unig yn cefnogi effaith barhaus ar leihau ysmygu nac ar wella cyfraddau rhoi'r gorau i ysmygu ac ymatal rhag ysmygu.
- Roedd tystiolaeth ar varenicline ynghyd â chymorth ymddygiadol o ddwy astudiaeth yn amrywio o ran ansawdd. Roedd un treial rhyngwladol o ansawdd uchel yn cefnogi'r ymyriad hwn ar gyfer cyfraddau uwch o leihau ysmygu a rhoi'r gorau i ysmygu.
- Ni wnaeth pedair astudiaeth o ansawdd gwael a oedd yn cyfuno therapi disodli nicotin â chymorth ymddygiadol ar gyfer lleihau ysmygu, rhoi'r gorau iddi neu gyfuniad o'r ddau ganfod tystiolaeth o effeithiolrwydd ar ganlyniadau lleihau ysmygu neu roi'r gorau iddi wedi'u dilysu.
- Nododd y rhan fwyaf o astudiaethau fod ymyriadau'n berthnasol i Gymru ond dim ond dwy astudiaeth a nododd niwed a chost-effeithiolrwydd eu hymyriad, ac felly roedd y cydbwysedd rhwng manteision, costau a niwed yn anhysbys.
- Roedd cyfraddau lleihau ysmygu neu ymatal rhag ysmygu wedi'u hunan-adrodd gymaint â deg gwaith yn fwy na'r amcangyfrifon wedi'u dilysu gan garbon monocsid. Mae hyn yn tynnu sylw at gryfder ein hadolygiad o ran canolbwyntio ar ganlyniadau wedi'u dilysu.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

- Ar y cyd ag adolygiadau Cochrane presennol ar ymyriadau lleihau niwed a lleihau ysmegu, nid yw ein hadolygiad yn dangos unrhyw ddatblygiad sylweddol ar gyfer cefnu ar ganllawiau presennol NICE a'r safonau gofynnol ar gyfer *Helpa Fi i Stopio*.



2. Cefndir a phwrpas

Ysmygu yw prif achos clefydau a marwolaethau y gellir eu hatal yng Nghymru. Roedd ymysgu yn gyfrifol am dros un o bob deg o'r holl farwolaethau rhwng 2020 a 2022, ymhlith oedolion 35 oed a hŷn (Emmerson *et al*, 2024). Mae effeithiau niweidiol ysmygu yn unol â phatrymau cymdeithasol - mae cyfraddau marwolaethau sy'n gysylltiedig ag ysmygu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru dair gwaith yn uwch na'r cyfraddau yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (Emmerson *et al.*, 2024). Gostyngodd nifer yr achosion o ysmygu yng Nghymru rhwng 2013 a 2022 o 20% i 13% ymhlith oedolion ond yn ddiweddar, mae cyfraddau rhoi'r gorau i ysmygu ymhlith ysmygwyr a gafodd eu trin wedi gostwng o 53.6% i 50.4% rhwng 2021 a 2024 (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025). Yr hyn sy'n hollbwysig yw bod poblogaeth yr ysmygwyr sy'n weddill yn newid, gyda chyfrannau uwch ddim yn barod i ymrwymo i ddyddiad rhoi'r gorau iddi, neu'n dod o boblogaethau mwy difreintiedig ac ymylol, na fyddai efallai'n cael cymaint o fudd o ymyriad rhoi'r gorau iddi'n sydyn. Amcangyfrifir bod 330,000 o oedolion Cymru yn parhau i ysmygu (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025a). Mae hyn yn tynnu sylw at y ffaith, er gwaethaf cyflawni cyfraddau da o ran rhoi'r gorau iddi (NCSC, 2005), bod yno her fawr o hyd. Nid yw cyfran fawr o ysmygwyr sy'n cael cymorth i roi'r gorau iddi yn llwyddo ac efallai y byddant yn elwa o ymyriad gwahanol sy'n fwy tebygol o'u helpu.

Mae *Helpa Fi i Stopio* yn wasanaeth sy'n helpu pobl yng Nghymru i roi'r gorau i ysmygu. Ac yntau wedi'i redeg mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd, mae'r gwasanaeth yn dilyn safonau gofynnol a chanllawiau NICE gan gynnwys NG209 (NICE, 2021). Mae *Helpa Fi i Stopio* yn wasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu'n sydyn sydd â'r nodau canlynol:


- cynyddu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad ag ysmygwyr sy'n cael eu cymell i roi'r gorau iddi;
- darparu 7 sesiwn gymorth dros 12 wythnos;
- cefnogi ysmygwyr i bennu dyddiad targed ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu o fewn y ddwy sesiwn gymorth gyntaf; a
- monitro llwyddiant drwy fesurau carbon monocsid wedi'i anadlu allan 4 wythnos ar ôl y dyddiad targed rhoi'r gorau iddi.

Er bod *Helpa Fi i Stopio* yn llwyddo i gefnogi hanner yr ysmygwyr sydd wedi cael eu trin (y rhai sy'n mynychu sesiwn ac yn pennu dyddiad rhoi'r gorau iddi) i roi'r gorau iddi, mae'r rhai sydd heb gael eu trin yn parhau i ysmygu. Mae gan ysmygwyr sydd heb gael eu trin anghenion a dewisiadau gwahanol iawn o ran modelau cymorth (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025). Nododd adolygiad gwasanaeth diweddar fod angen datblygu'r gwasanaeth er mwyn diwallu'n well anghenion ysmygwyr sydd heb eu trin. Mae cyngor cyfredol gan *Helpa Fi i Stopio* ar gyfer ysmygwyr nad ydynt yn barod i ymrwymo i ddyddiad rhoi'r gorau iddi (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025b) yn canolbwyntio ar fanteision rhoi'r gorau iddi. Ei nod yw cynyddu cymhelliant i roi'r gorau iddi er mwyn galluogi manteisio ar gymorth rhoi'r gorau iddi. Cwestiwn hirhoedlog yw a ellir lleihau niwed ysmygu yn fwy graddol drwy annog pobl nad ydynt yn barod i ymrwymo i ddyddiad rhoi'r gorau iddi i leihau ysmygu yn lle. Mae Ffigur 1 (wedi'i addasu o Fucito *et al.*, 2024) yn amlinellid damcaniaethol o leihau niwed ysmygu yn raddol trwy ddangos llwybrau penodol sydd wedi'u targedu at bobl yn seiliedig ar eu cymhelliant i roi'r gorau iddi. Mae hynny'n amrywio o ran nodau ymyriad, canlyniadau hirdymor a gostyngiad damcaniaethol mewn niwed i iechyd. Mae'r gwelliant o ran effeithiau niweidiol ysmygu a gynrychiolir yn y ffigur yn seiliedig ar gysylltiadau arsylwadol rhwng lleihau ysmygu a chanlyniadau iechyd hirdymor (Chang *et al.*, 2021). Ni chanfuwyd unrhyw

dreialon sy'n amcangyfrif effeithiau iechyd lleihau ysmegu tebyg (Lindson-Hawley *et al.*, 2016). Mae'r amlinelliad damcaniaethol (Ffigur 1) yn cynnwys tri llwybr:

1. Llwybr i ymatal – Yn cynnwys cymorth uniongyrchol ar gyfer ymgais i roi'r gorau iddi pan fydd ysmygwyr yn barod i ymrwymo i ddyddiad rhoi'r gorau iddi, yn ogystal â chymorth anuniongyrchol i roi'r gorau iddi drwy leihau ysmegu, h.y. cefnogir ysmygwyr nad ydynt yn fodlon pennu dyddiad rhoi'r gorau iddi i leihau ysmegu fel nod canolradd cyn gwneud ymgais i roi'r gorau iddi. Felly, ymatal yw'r canlyniad hirdymor ond mae'n digwydd yn arafach na rhoi'r gorau iddi'n sydyn.
2. Llwybr i leihau ysmegu - Mae ysmygwyr nad ydynt eto'n barod i ymrwymo i roi'r gorau iddi'n cael eu cefnogi i leihau ysmegu heb nod rhoi'r gorau iddi'n llwyr, a'r canlyniad hirdymor yw parhau i ysmegu ond ysmegu llai.
3. Llwybr i barhau i ysmegu - Nid yw ysmygwyr sydd heb gymhelliant i leihau ysmegu neu roi'r gorau iddi'n derbyn unrhyw gymorth, nid ydynt yn pennu unrhyw nodau ac maent yn parhau i ysmegu heb unrhyw newid mewn niwed.

Ffigur 1: Newid damcaniaethol mewn niwed o leihau o'i gymharu â rhoi'r gorau iddi (addaswyd o Fucito *et al.*, 2024)



Nid oes un diffiniad o leihau niwed tybaco, ond yn gyffredinol gellir diffinio lleihau niwed fel “a method designed to reduce the risk of harm associated with a certain behaviour without necessarily reducing the frequency of that behaviour” (Llyfrgell Genedlaethol Meddygaeth, 2003). Mae'r cysyniad o leihau niwed wedi cael ei ddefnyddio gan y diwydiant tybaco i gynhyrchu cynhyrchion sy'n cael eu marchnata i leihau niwed ysmegu tybaco o safbwynt iechyd, er enghraifft, sigarêts tar isel neu gynhyrchion tybaco wedi'u gwresogi. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth annibynnol ar hyn o bryd bod cynhyrchion o'r fath yn llai niweidiol na sigarêts, o safbwynt cyfraddau is o glefydau neu farwolaethau (Tactics Tybaco, 2022). Tynnodd adolygiad y gwasanaeth *Helpa Fi i Stopio* sylw at y ffaith bod sawl Bwrdd Iechyd yn defnyddio dull 'lleihau niwed' gydag enghreifftiau o arfer arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ond mae yno anghysondebau yn y ffordd y caiff y dulliau hyn eu cysyniadau, eu cynllunio a'u gweithredu (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025).




Mae NICE yn awgrymu y gellir lleihau niwed drwy fesurau neu gynhyrchion sy'n cefnogi ysmegu llai neu ymatal dros dro rhag ysmegu tybaco. Mae dulliau lleihau niwed ysmegu o'r fath ar gyfer pobl nad ydynt eisiau, neu nad ydynt yn barod, i roi'r gorau i ysmegu ar unwaith, yn cynnwys (Lindson-Hawley *et al.*, 2016; NICE 2021):

- Llwybr tymor hwy i ymatal gan ddefnyddio dulliau wedi'u sefydlu i gefnogi rhoi'r gorau i ysmegu a chadw at ymatal rhag tybaco heb ddyddiad rhoi'r gorau iddi wedi'i gytuno arno.
- Lleihau ysmegu drwy gyfnewid sigarêts, yn rhannol neu'n llwyr, am gynhyrchion eraill sy'n cynnwys nicotin sy'n llai niweidiol na sigarêts, e.e. therapi disodli nicotin.
- Cynhyrchion meddyginiaethol ar bresgripsiwn er mwyn lleihau ysmegu trwy leddfu chwant am ysmegu fel Varenicline, Cytisine neu Bupropion.
- Cymorth ymddygiad er mwyn lleihau amllder ymddygiadau ysmegu.

Yn yr un modd â chymorth ymddygiad, mae therapi disodli nicotin neu feddyginiaeth ar bresgripsiwn hefyd yn elfennau allweddol o ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu. Mae yna orgyffwrdd yn y dystiolaeth ar gyfer dulliau ar gyfer lleihau niwed a rhoi'r gorau i ysmegu. Mae Ffigur 2 yn cyfuno'r llwybrau damcaniaethol i leihau ysmegu neu ymatal rhag ysmegu (a ddangosir yn Ffigur 1) â mathau o ymyriadau ysmegu er mwyn dangos nad yw lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi weithiau'n cyd-fynd, ond bod modd eu cyfuno hefyd. Gellir gwahaniaethu rhwng mathau o ymyriadau ysmegu yn ôl eu nodau, eu cymhellion a'u hyblygrwydd yn bum categori, fel y dangosir yn Ffigur 2. O'i gymharu â pharhau i ysmegu, gellid ystyried bod yr holl categorïau yn ffigur 2 yn lleihau niwed. Mae safonau gwasanaeth gofynnol *Helpa Fi i Stopio* yn cydnabod y bydd angen hyblygrwydd ar rai ysmygwyr wrth gytuno ar ddyddiad rhoi'r gorau iddi yn y dyfodol neu y byddant ond yn ymgysylltu â rhaglen lleihau niwed i ddechrau. Serch hynny, nid oes safonau cenedlaethol ar gyfer lleihau niwed sy'n golygu y gall ymyriadau amrywio o un bwrdd iechyd i'r llall. Un dull sydd wedi cael ei ddefnyddio yw 'ysmegu llai er mwyn rhoi'r gorau iddi', sydd o dan *gategori 3 Cyfunol*.

Ffigur 2: Darlun cysyniadol o nodweddion unigryw ymyriadau lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi, a nodweddion sy'n orgyffwrdd.



Mae tystiolaeth gref y gall cyfuniad o gymorth ymddygiad wyneb yn wyneb a therapi disodli nicotin neu feddyginiaeth ar bresgripsiwn yn unig helpu i leihau ysmegu ac arwain yn anuniongyrchol at roi'r gorau iddi wedi hynny (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025). Ond mae ansicrwydd yn y sail dystiolaeth yn parhau mewn perthynas ag a yw dulliau lleihau niwed 1) yn cynyddu cyfraddau ymatal yn yr hirdymor; 2) yn lleihau niwed ysmegu o ystyried bod niwed wrth ysmegu ar unrhyw lefel; 3) sy'n cyfnewid am gynhyrchion eraill yn effeithio ar gymhelliant i roi'r gorau iddi neu'n gwneud ailddechrau ysmegu'n fwy tebygol. Yn rhan o adolygiad y gwasanaeth *Helpa Fi i Stopio* sy'n cael ei gynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd wedi nodi'r angen i ehangu gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu yng Nghymru a safoni dulliau lleihau niwed ar draws byrddau iechyd, gofynnwyd i'r Gwasanaeth Tystiolaeth nodi tystiolaeth er mwyn helpu i lywio'r gwaith hwn.

Mae yna dros 70 o adolygiadau Cochrane ar ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu sy'n casglu mwy na 2,500 o hap-dreialon dan reolaeth (sy'n cynrychioli categorïau 4 a 5 yn Ffigur 2) (Lu *et al.* 2024). Dim ond dau adolygiad Cochrane a gafodd eu nodi gan ein chwiliadau cwmpasu a oedd yn berthnasol i leihau niwed. Yn 2016, casglodd Lindson-Hawley *et al.* 24 o dreialon yng *nghategori 1. Lleihau neu gyfnewid*, Ffigur 2. Roedd y rhan fwyaf o astudiaethau wedi eithrio pobl sydd â diddordeb mewn rhoi'r gorau i ysmegu ar hyn o bryd, ond roedd yr asesiadau a'r pwyntiau torbwynt wedi'u defnyddio i bennu cymhwysedd yn amrywio. Profodd dros hanner y treialon therapi disodli nicotin naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chymorth ymddygiad. Ymchwiliodd chwe ymyriad i gymysgedd o gynhyrchion a anelir at gyfnewid ysmegu sigarêts arferol am ddewisiadau amgen a oedd yn cynnig lleihau cysylltiad â chydannau niweidiol gan gynnwys cynhyrchion tybaco (snŵs, sigarêts tar isel, sigarêts wedi'u gwresogi'n electronig) ac e-sigarêts neu fêps nad ydynt yn cynnwys tybaco ac sy'n cynnwys nicotin. Profodd dau dreial gymorth ymddygiad ar ei ben ei hun. Edrychwyd ar feddyginiaeth ar bresgripsiwn fel cymorth lleihau niwed mewn dau dreial yn unig; un ar gyfer bupropion ac un arall ar gyfer varenicline (titradiad safonol o 0.5mg am 3 diwrnod, 1mg am 4 diwrnod, yna 2mg o hynny ymlaen). Yn seiliedig ar wyth treial mewn dadansoddiad wedi'i gasglu, cynyddodd therapi disodli nicotin y tebygolrwydd o haneru nifer y



sigarêts y dydd o'r llinell sylfaen (Cymhareb risg 1.75, Cyfwng Hyder 95% [CH]=1.44 i 2.13) a rhoi'r gorau i ysmegu (CR=1.87, CH 95%=1.43 i 2.44). Rhoddodd dau dreial ddewis o ran cynhyrchion, rhoddodd pedwar treial 2mg neu 4mg o gwm, rhoddodd dau dreial anadlydd. Cafodd tystiolaeth ar gyfer canlyniadau rhoi'r gorau i ysmegu ei graddio'n isel, sy'n golygu y gallai ymchwil pellach wella hyder yn yr effaith amcangyfrifedig. Roedd y dystiolaeth ar gyfer yr holl ymyriadau eraill yn dangos budd posibl o leihau ysmegu neu roi'r gorau iddi, ond roedd yn aneglur oherwydd dulliau amhenodol. Pan ddefnyddiwyd mesurau gwrthrychol fel carbon monocsid (CO) a chotinin, roeddent yn gyffredinol yn dangos cyfraddau lleihau ysmegu is na mesurau wedi'u hunan-adrodd, ac felly roedd yn angenrheidiol dilysu canlyniadau. Mae'n bwysig nodi na fesurodd yr un o'r treialon y niwed i iechyd a achosir gan ysmegu yn uniongyrchol, felly roedd y ddamcaniaeth a gyflwynir yn Ffigur 1 heb ei phrofi mewn treialon. Fodd bynnag, mae'r adolygiad yn tynnu sylw at y ffaith y gellir helpu pobl nad ydynt am roi'r gorau iddi i leihau nifer y sigarêts y maent yn eu hysmygu ac i roi'r gorau i ysmegu yn yr hirdymor, gan ddefnyddio therapi disodli nicotin, er gwaethaf y bwriadau gwreiddiol i beidio â gwneud hynny. (Lindson-Hawley *et al.*, 2016).

Yn 2019, casglodd Lindson *et al.* 51 o dreialon a oedd yn dod o dan gategoriâu *2 Lleihau* (12 treial) a *3 Cyfunol* (29 treial) yn Ffigur 2. Roedd dulliau lleihau yn amrywio'n fawr gan gynnwys cyngor a chymorth ymddygiad yn ogystal â ffarmacotherapi. Roedd y dulliau cyffredin yn cynnwys:

- Amnewid sigarêts am therapi disodli nicotin
- Cymorth ymddygiad ar gyfer lleihau gyda meddyginiaeth ar bresgripsiwn
- Pennu nifer targed o sigarêts y dydd i anelu ato
- Pennu cyfnodau amser neu leoliadau di-fwg fel yn y gwaith neu gartref
- Cynyddu'r amser rhwng sigarêts yn raddol
- Rhoi'r gorau i sigarêts arferol neu leiaf poblogaidd sy'n cael eu hysmygu ar adegau penodol
- Cynyddu'r amser yn raddol rhwng deffro a'r sigarét gyntaf

Yn aml, roedd astudiaethau'n cyfuno sawl dull gan ei gwneud hi'n anodd pennu effeithiolrwydd unrhyw ddull unigol (Tabl atodol 1). Darparwyd ymyriadau wyneb yn wyneb yn bennaf (38 o dreialon) gyda chyswllt ychwanegol dros y ffôn, neu ar ffurf negeseuon testun, deunyddiau hunangymorth neu gymorth cyfrifiadurol. Roedd yr amser cyswllt yn amrywio o 6 munud i 16 awr, wedi'i gyflwyno dros un i 28 sesiwn. Roedd y rhan fwyaf o dreialon (n=27) yn cymharu dulliau lleihau ysmegu â rhoi'r gorau iddi'n sydyn. O'i gymharu â rhoi'r gorau iddi'n sydyn, arweiniodd ymyriadau lleihau ysmegu-i-roi'r gorau iddi at lai o ymdrechion i roi'r gorau iddi (CR=0.92, CH 95%=0.85,0.99; 13 astudiaeth; 5389 o gyfranogwyr), ond roeddent yr un mor effeithiol o ran ymatal ar ôl 6 mis (CR=1.01, CH 95%=0.87 i 1.17; 22 astudiaeth, 9219 o gyfranogwyr). Yn gyffredinol, awgrymir y gallai ysmegu llai fod yn ddull defnyddiol o roi'r gorau i ysmegu ar gyfer pobl nad ydynt yn barod i ymrwymo i roi'r gorau iddi. Arweiniodd cymorth ymddygiad ar gyfer lleihau gyda chymorth ffarmacotherapi (therapi disodli nicotin neu feddyginiaeth ar bresgripsiwn) o'i gymharu â chymorth ymddygiad ar gyfer lleihau yn unig at gyfraddau rhoi'r gorau iddi uwch (CR=1.68, CH 95%=1.09 i 2.58; 11 astudiaeth, 8636 o gyfranogwyr) (Lindson *et al.*, 2019). Roedd modd cynnwys treialon mewn poblogaethau ysmegwyr cyffredinol a dim ond 3 astudiaeth a nododd gymhelliant sylfaenol i roi'r gorau iddi ymhlith eu cyfranogwyr. Felly mae'n parhau i fod yn anhysbys a yw ymyriad lleihau yn well na rhoi'r gorau iddi'n sydyn yn benodol ar gyfer pobl sydd â llai o gymhelliant i roi'r gorau iddi.

Er na phennwyd dyddiad rhoi'r gorau i ysmegu yn ystod yr ymyriad mewn 36 o'r 75 o dreialon a oedd wedi'u cynnwys yn adolygiadau Cochrane hyd yn hyn (Lindson Hawley *et al.*, 2016; Lindson *et al.*, 2019), gall ymyriadau sy'n cefnogi lleihau ysmegu arwain cyfranogwyr at roi'r gorau iddi ac

ymatal yn yr hirdymor. Mae'n debyg mai cymorth ymddygiad ar gyfer lleihau ysmegu ynghyd â therapi disodli nicotin yw'r dull gorau ar gyfer gwella cyfraddau ymatal yn yr hirdymor ym mhoblogaethau ysmygwyr cyffredinol. Nod ein gwaith yw ychwanegu at y ddau adolygiad hyn drwy archwilio'r sail dystiolaeth ar gyfer dulliau lleihau niwed ysmegu, a gyhoeddwyd ers 2015 (dyddiad y chwiliad diwethaf a gynhaliwyd gan Lindson-Hawley *et al.* 2016). Fe wnaethom ganolbwyntio ar nodi'r dystiolaeth ddiweddaraf ar ymyriadau wedi'u cynllunio i leihau ysmegu (llwybr 2, ffigur 1) neu ymatal trwy leihau (llwybr 1, ffigur 1). Ein nod hefyd oedd dod o hyd i ymyriadau wedi'u darparu i ysmygwyr nad oeddent eto'n barod i roi'r gorau iddi, sy'n dod o dan gategoriâu 1, 2, 3 a 4 (ffigur 2), lle gellir neu na ellir cyfuno cyngor neu nodau ar gyfer lleihau ysmegu â nodau ar gyfer rhoi'r gorau iddi. Bydd yr adolygiad cyflym hwn yn ateb y cwestiwn hwn yn benodol:

Beth yw'r dystiolaeth ar gyfer dulliau gwahanol o 'leihau niwed' mewn gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu (*yn hytrach na'r model 'rhoi'r gorau iddi' safonol cyfredol*) o ran lleihau a/neu roi'r gorau i ysmegu yn y boblogaeth oedolion gyffredinol nad yw eto'n barod i roi'r gorau iddi?

3 Dulliau

3.1 Meini Prawf Cymhwysedd

Mae Tabl 1 yn nodi'r meini prawf cymhwysedd y cafodd astudiaethau cynradd wedi'u nodi eu sgrinio yn eu herbyn i'w cynnwys yn yr adolygiad cyflym hwn. Am fanylion y meini prawf cynnwys ac eithrio gweler Atodiad 1, tabl atodol 2. Ar gyfer canlyniadau rhoi'r gorau i ysmegu, rydym wedi diffinio amserlen sy'n hirach na 4 mis i wahaniaethu rhwng treialon rydym yn eu cynnwys a'r arferion cyfredol yn Helpa Fi i Stopio. Cyflwynir y model rhoi'r gorau iddi'n sydyn presennol dros 12 wythnos gyda dyddiad rhoi'r gorau iddi wedi'i bennu yn sesiwn 2 ar ryw adeg o fewn 12 wythnos. Yna mesurir rhoi'r gorau i ysmegu yn llwyddiannus 4 wythnos ar ôl y dyddiad rhoi'r gorau iddi. Felly amcangyfrif ceidwadol o'r adeg ddiweddaraf ar ôl y llinell sylfaen y gallai defnyddwyr gwasanaethau presennol gael eu lefel ymatal wedi'i mesur yw 16 wythnos (neu 4 mis). Er bod adolygiadau Cochrane wedi pennu 6 mis ar gyfer mesur canlyniadau, nid ydym wedi cadw at hyn er mwyn cadw'r meini prawf cynnwys mor eang â phosibl. Fe wnaethom gynnwys ymyriadau yn profi cyngor/cymorth ar ddefnyddio e-sigaréts er mwyn lleihau ysmegu. Serch hynny, fe wnaethom ond eu cynnwys os na ddarparwyd yr e-sigaréts gan ymchwilyr, oherwydd nid yw polisi presennol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi darparu e-sigaréts. Fe wnaethom hefyd eithrio ymyriadau sy'n cynnwys cynhyrchion tybaco amgen gan nad yw darparu'r rhain yn rhan o wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu yn cael eu cefnogi ychwaith.

Tabl 1: Meini prawf cymhwysedd ar gyfer astudiaethau i'w cynnwys yn yr adolygiad cyflym

Poblogaeth	Ymyriad / Cysylltiad	Cymharu / Rheoli	Canlyniadau
Ysmygwyr sy'n oedolion yn y boblogaeth gyffredinol nad ydynt yn fodlon neu'n gallu ymrwymo i	Lleihau niwed ysmegu: ymyriadau sy'n anelu at leihau cysylltiad ag ysmegu tybaco heb ymrwymiad i roi'r gorau iddi'n sydyn.	Dim ymyriad neu Reoli ar restr aros neu Ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu heb leihau ysmegu cyn ymgais i roi'r gorau iddi (h.y. rhoi'r gorau iddi'n sydyn).	Lleihau cysylltiad â thybaco – mesuriadau o lwybr hirach i ymatal trwy leihau ysmegu. Arwyddion canolradd fel lleihau faint o ysmegu sy'n



<p>ddyddiad rhoi'r gorau iddi</p>	<p>Gall fod ar y cyd ag ymyriad rhoi'r gorau i ysmegu tymor hwy neu fwy hyblyg (ond nid rhoi'r gorau iddi'n sydyn).</p> <p>Gall gynnwys cymorth ymddygiad, therapi disodli nicotin, neu ffarmacotherapi gan gynnwys varenicline, cytisine (a elwir hefyd yn cytisinicline), Bupropion. Ond heb gynnwys cynhyrchion tybaco (e.e. snŵs neu sigarêts wedi'u gwresogi) neu ddarparu fêps am ddim.</p> <p>Yn cynnwys categorïau 1, 2, 3 a 4 yn Ffigur 2</p>	<p>Gall gynnwys cymorth ymddygiad, therapi disodli nicotin, neu ffarmacotherapi gan gynnwys varenicline, cytisine (a elwir hefyd yn cytisinicline), Bupropion.</p>	<p>digwydd, ymatal dros dro, ymdrechion i roi'r gorau iddi neu roi'r gorau iddi dros gyfnod o amser sy'n hirach na 4 mis</p>
-----------------------------------	--	--	--

3.2 Dulliau chwilio

3.2.1 Chwiliadau cwmpasu

Cynhaliwyd chwiliadau cwmpasu gan ddau adolygydd (LJ ac AFM) mewn cronfeydd tystiolaeth eilaidd, a gwefannau pynciau perthnasol rhwng 13 a 22 Awst 2025. Roedd y rhain yn cynnwys:

- JBI (Sefydliad Joanna Briggs)
- WHO (Sefydliad Iechyd y Byd)
- NICE (Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal)
- Gwefannau Llywodraeth y DU a Chymru
- PROSPERO
- ASH (Gweithredu ar Ysmegu ac Iechyd)
- NIHR (Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal)
- EPPI Centre
- What Works for Wellbeing
- Campbell Collaboration
- Ymchwil Canser y DU
- Technoleg Iechyd Cymru
- SIGN (Rhwydwaith Canllawiau Rhyng-golegol yr Alban)
- AHRQ (Yr Asiantaeth ar gyfer Ymchwil ac Ansawdd Gofal Iechyd)
- CDA (Asiantaeth Gyffuriau Canada)
- Google Scholar

Fe wnaeth canlyniadau'r chwiliadau cwmpasu hyn lywio trafodaethau gyda rhanddeiliaid a datblygiad y protocol.

3.2.2 Chwilio am lenyddiaeth

Cynhaliwyd chwiliad o gronfeydd data ac adnoddau i nodi astudiaethau cynradd wedi'u cyhoeddi. Cynhaliwyd yr holl chwiliadau ar 25 Medi 2025. Chwiliwyd y cronfeydd data canlynol:

- MEDLINE (clinicaltrials.gov)
- EMBASE (bellach yn cynnwys CINAHL)

- PsycINFO

Cysyniadau chwilio ac allweddeiriau wedi'u cynnwys:

- 'smoking reduction'
- 'smoking cessation'
- 'harm reduction'
- 'risk reduction'
- 'controlled smoking'
- 'scheduled smoking'
- fading
- tapering
- reducing
- swapping
- cutting down or back
- substituting and
- phasing out smoking

Cyfyngwyd y chwiliadau i gofnodion wedi'u cyhoeddi ar ôl 2015 yn seiliedig ar y dyddiad chwilio diwethaf yn Lindson-Hawley, *et al.*, 2016. Roedd chwiliadau wedi'u cyfyngu i astudiaethau wedi'u cyhoeddi yn Saesneg. Drafftwyd strategaeth chwilio gychwynnol yn Ovid MEDLINE gan Arbenigwr Gwybodaeth (AFM) ac yna fe'i cyfieithwyd i'r cronfeydd data eraill gan yr un Arbenigwr Gwybodaeth. Gellir gweld y strategaeth chwilio a gafodd ei defnyddio ar gyfer MEDLINE yn Atodiad 1.

Cafodd pedwar adolygiad systematig allweddol (Lindson-Hawley *et al.*, 2016; Lindson *et al.*, 2019; Lopes *et al.*, 2022; Klemperer *et al.*, 2023) eu chwilio â llaw er mwyn nodi unrhyw astudiaethau ychwanegol a allai fod wedi'u methu gan ein chwiliadau cronfeydd data. **Nodwyd y pedwar adolygiad hyn yn ystod chwiliadau cwmpasu rhagarweiniol.** Cafodd unrhyw adolygiadau systematig eraill a oedd yn bodloni ein meini prawf cymhwysedd a gafodd eu nodi o'n chwiliadau eu cynnwys at ddiben chwilio â llaw. Ymgynghorwyd ag arbenigwr pwnc i holi a oedd canlyniadau wedi'u diweddarau ond heb eu cyhoeddi yn bodoli o adolygiadau Cochrane perthnasol (Lindson-Hawley *et al.*, 2016; Lindson *et al.*, 2019) ac ychwanegwyd llenyddiaeth ychwanegol o'r ymholiad hwn at ein canlyniadau ar gyfer cam sgrinio.

3.3 Proses dethol a rheoli cofnodion astudio

3.3.1 Rheoli cofnodion astudio

Cofnodwyd canlyniadau chwiliad cwmpasu rhagarweiniol mewn taenlen Excel a chafodd eu cymhwysedd eu hasesu gan ddau adolygydd (AFM neu LJ). Cafodd y cofnodion a nodwyd o'r gronfa ddata a chwiliadau atodol cychwynnol eu mewnfario i lyfrgell EndNote (fersiwn 20, Philadelphia, PA, Clarivate) lle cafodd cofnodion dyblyg eu tynnu. Cafodd y cofnodion a oedd yn weddill eu mewnfario i Rayyan (Platfform Rheoli Adolygiadau Systematig wedi'i Bweru gan Ddeallusrwydd Artiffisial) (Ouzzani, *et al.*, 2016) ar gyfer cam sgrinio, lle cafodd rhagor o gofnodion dyblyg eu nodi a'u tynnu. Rheolwyd cofnodion o chwiliadau atodol mewn adolygiadau systematig a oedd yn bodloni ein meini prawf cymhwysedd ar gyfer astudiaethau cynradd ar wahân gan ddefnyddio taenlen Excel.

3.3.2 Proses Dewis Astudiaethau

Cafodd teitlau a chrynodebau eu sgrinio unwaith gan ddau adolygydd (KS a LJ) yn Rayyan, gyda 20% o'r cofnodion yn cael eu sgrinio'n ddyblyg gan drydydd adolygydd (AFM) er mwyn sicrhau cysondeb ac er mwyn lleihau rhagfarn. Cyfrifwyd mai'r dibynadwyedd rhyng-asesydd ar gyfer sgrinio teitlau a chrynodebau oedd 98.5%. Trafodwyd unrhyw ansicrwydd yn y tîm adolygu a chafodd eglurhad o ran dealltwriaeth o'r meini prawf cymhwysedd eu dogfennu. Cafodd testunau llawn pob astudiaeth wedi'i chynnwys ar ôl sgrinio teitlau a chrynodebau eu hadolygu gan un adolygydd (LJ) a sgriniodd dau ail adolygydd hanner ohonynt yr un (KS neu AFM) fel bod pob un o'r testunau llawn wedi'u sgrinio'n ddyblyg. Trafodwyd unrhyw wrthdaro ynghylch penderfyniadau yn y tîm, a daethpwyd i gytundeb o ran eu cynnwys. Yn ystod y cam sgrinio, nodwyd sawl papur yn adrodd ar ddadansoddiad nad yw ar hap o dreial a allai fod yn gymwys. Cafodd y rhain eu holrhain mewn dyfyniadau er mwyn nodi papur y treial cynradd, a gafodd ei sgrinio wedyn i sefydlu a oedd eisoes wedi'i gynnwys ac os nad oedd, a oedd yn bodloni ein meini prawf cynnwys. Ni arweiniodd y chwiliadau atodol hyn at ychwanegu rhagor o dreialon gan fod papurau'r treial cynradd naill ai'n hen; wedi'u sgrinio a'u heithrio o'r blaen, neu'n newydd ond wedi'u heithrio gan nad oeddent yn bodloni ein meini prawf cynnwys. Cofnodwyd cofnodion wedi'u cynnwys ym mhob cam o'r broses a'r rhesymau dros eu heithrio mewn diagram llif PRISMA (ffigur 3).

3.4 Arfarniad beirniadol

Cynhaliwyd arfarniad beirniadol gan ddefnyddio rhestr wirio'r Rhaglen Sgiliau Arfarnu Beirniadol (CASP) ar gyfer hap-dreialon dan reolaeth (CASP, 2025). Cynhaliodd un adolygydd (KS) arfarniadau beirniadol ar gyfer yr holl astudiaethau a oedd wedi'u cynnwys yn yr adolygiad cyflym, a gwiriodd ail adolygydd (LJ) 20% ohonynt am gysondeb. Datryswyd unrhyw bwyntiau neu anghytundebau ychwanegol rhwng y ddau adolygydd. Cafodd y canfyddiadau eu cynnwys yn y tabl echdynnu data ac mae goblygiadau posibl ansawdd yr astudiaethau wedi'u cynnwys wedi'u trafod yn adran canfyddiadau'r adolygiad cyflym hwn.

3.5 Echdynnu data

Cafodd data o'r astudiaethau cynradd a oedd wedi'u cynnwys eu hechdynnu i dabl dogfen Word gan un adolygydd (KS neu HS). Yna gwiriodd ail adolygydd (LJ) y data am gysondeb. Cafodd yr wybodaeth ganlynl ei hechdynnu:

- Cyfeirnod astudiaeth (Awdur a blwyddyn gyhoeddi)
- Gwlad
- Nod yr astudiaeth
- Dyluniad yr astudiaeth
- Nodweddion y cyfranogwyr gan gynnwys nifer, oedran, rhyw, meini prawf cymhwysedd



(arferion ysmegu blaenorol os adroddwyd amdanynt; cymhelliant/ymroddiad/parodrwydd i leihau ysmegu neu roi'r gorau iddi) a defnydd o gymhellion ar gyfer ymchwil neu yn rhan o'r ymyriad

- Disgrifiad byr o amodau ymyriad a rheoli
- Casglu data a dulliau sy'n berthnasol i gyflwyno ymyriadau neu fesur canlyniadau
- Canlyniadau wedi'u hasesu (os yw'n berthnasol i'n meini prawf cynnwys) gan gynnwys y mesurau canlynol wedi'u hunan-adrodd: lleihau nifer y sigarét y dydd; ymdrechion i roi'r gorau iddi, neu ymatal, ochr yn ochr â dull wedi'i ddilysu fel carbon monocsid wedi'i anadlu allan neu fiomarcwyr eraill yn gysylltiedig â gwaed neu boer. Gallai mesurau ymatal gynnwys cyffredinolrwydd pwynt 7 diwrnod (peidio ag ysmegu am y 7 diwrnod diwethaf, wedi'i ddilysu gan un mesur carbon monocsid wedi'i anadlu allan), ymatal parhaus (peidio ag ysmegu am gyfnod penodol lle dilysir hyn sawl gwaith drwy gydol y cyfnod), ymatal parhaus ansefydlog (lle mae amseriad rhoi'r gorau iddi yn amrywio ac felly mae'r cyfnod ymatal parhaus wedi'i angori i amseriad rhoi'r gorau iddi ar gyfer cyfranogwr unigol yn hytrach nag amser penodol ers y llinell sylfaen ar gyfer pob cyfranogwr)
- Canfyddiadau, gan gynnwys yr holl fesurau perthnasol o effaith yr ymyriad ar ddefnydd o dybaco, lleihau, rhoi'r gorau iddi, ymatal ac amcangyfrifon cost-effeithiolrwydd.

Yn ogystal â'r data uchod, echdynnwyd rhagor o fanylion am gynllun a chyflwyniad yr ymyriad a'r amodau, gan gynnwys:

- Lleoliad
- Nodau lleihau
- Technegau newid ymddygiad / damcaniaeth sylfaenol
- Cyd-destun
- Nodau rhoi'r gorau iddi
- Dull cyflwyno
- Disgrifiad o'r ymyriad
- Hyd
- Disgrifiad o reoli

3.6 Dadansoddi Technegau Newid Ymddygiad

Er mwyn archwilio a oedd unrhyw dechnegau newid ymddygiad cyffredin yn cael eu defnyddio ar draws yr ymyriadau lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi, fe wnaethom gynnal dadansoddiad gyda'r Tacsonomeg Techneg Newid Ymddygiad (Michie *et al.*, 2013), gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd yn y disgrifiadau o'r ymyriadau o'r papurau a'r protocolau, lle'r oeddent ar gael.

3.7 Crynhoi

Mae tystiolaeth wedi'i chrynhai ar ffurf naratif yn seiliedig ar y math o ymyriad mewn treial, a gafodd ei ddsbarthu yn seiliedig ar y prif ddulliau a ddefnyddiwyd: 1) Ymyriadau Ymddygiadol yn unig; 2) Ymddygiadol a Ffarmacolegol (Varenicline); a 3) Ymddygiadol a Ffarmacolegol (therapi disodli nicotin). Cafodd ymyriadau hefyd eu dosbarthu a'u crynhoi yn seiliedig ar eu nodau ar gyfer



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales


lleihau neu roi'r gorau iddi, yn unol â Ffigur 2, fel a ganlyn: 1) Lleihau neu Gyfnewid; 2) Lleihau; 3) Cyfunol; neu 4) Rhoi'r gorau iddi. Ni chynhaliwyd meta-dadansoddiad, oherwydd amrywiaeth rhwng astudiaethau o ran cyflwyno ymyriadau, a diffiniad ac amseriad mesur canlyniadau.

4. Canlyniadau

4.1 Detholiad o'r Astudiaeth

Dangosir canlyniadau'r chwiliadau a'r cam sgrinio ar gyfer cynnwys yn Ffigur 3. Cynhyrchodd chwiliadau gyfanswm o 2,816 o gofnodion, ac roedd 935 ohonynt yn gofnodion dyblyg, ac felly roedd yno 1,881 o gofnodion i'w sgrinio. Ar ôl sgrinio teitlau a chrynodebau, adolygwyd testunau llawn 104 o gofnodion. Cafodd cofnodion eu heithrio'n bennaf am fod yn y boblogaeth anghywir (n=47), fel arfer oherwydd bod y poblogaethau'n ysmygwyr eisoes wedi'u cymell i roi'r gorau iddi, neu oherwydd ei fod yn ymyriad anghywir (n=31). Roedd ymyriadau wedi'u heithrio yn dod o dan ffigur 2 categori 4. Rhoi'r gorau i ysmegu, nad oedd yn cynnwys unrhyw gyngor na thargedau ar leihau ysmegu, neu gategori 5. Rhoi'r gorau iddi'n sydyn ac nad oeddent yn wahanol i'r model *Helpa Fi i Stopio* presennol.

Ffigur 3: Diagram llif PRISMA o'r canlyniadau chwilio a'r detholiad o astudiaethau yn y cam sgrinio.



4.2 Nodweddion yr astudiaethau

Ar ôl sgrinio, roedd naw treial wedi'u hadrodd mewn 11 astudiaeth yn gymwys i gael eu cynnwys yn y synthesis terfynol (Ebbert *et al.*, 2015; Farley *et al.*, 2017; Guo *et al.*, 2023; Hatsukami *et al.*, 2020; Machulska *et al.*, 2021; Steinberg *et al.*, 2018; Taylor *et al.*, 2023; Weng *et al.*, 2020; Zhao *et al.*, 2021). Mae manylion am nodweddion astudiaethau unigol i'w gweld yn nhabl atodol 3 (Atodiad 2). Yn gryno, defnyddiodd pob astudiaeth gynllun hap-dreial dan reolaeth gyda naill ai dwy, tair neu bedair adran. Roedd un astudiaeth yn astudiaeth ddichonoldeb (Farley *et al.*, 2017), roedd un yn astudiaeth beilot (Zhao *et al.*, 2021), ac roedd un yn astudiaeth prawf o gysyniad (Steinberg *et al.*, 2018).

Cynhaliwyd tair astudiaeth yn Hong Kong (Guo *et al.*, 2023; Weng *et al.*, 2020; Zhao *et al.*, 2021); dwy yn y DU (Farley *et al.*, 2017; Taylor *et al.*, 2023); dwy yn UDA (Hatsukami 2020; Steinberg *et al.*, 2018); ac un yn yr Almaen (Machulska *et al.*, 2021). Cafodd yr astudiaeth gan Ebbert *et al.* (2015) ei chynnal yn rhyngwladol ar draws deg gwlad, gan gynnwys y DU. Cynigiodd saith astudiaeth gymhellion (arian parod neu dalebau) i gyfranogwyr, gan gynnwys cymhellion yn dilyn cymryd rhan yn y treial (Taylor *et al.*, 2023), cymhellion os cwblhawyd yr holl asesiadau (Steinberg *et al.*, 2018), a chymhellion am naill ai mynychu safleoedd astudio ar gyfer proses ddilysu neu ar gyfer 'llwyddo' ym mhob proses dilysu lefel ymatal yn y treial (Farley *et al.*, 2017; Guo *et al.* 2023; Weng *et al.*, 2020; Zhao *et al.*, 2021). Roedd Hatsukami *et al.* (2020) yn cynnig iawndal am gymryd rhan mewn gwaith ymchwil a glynu wrth y protocol. Dyfarnwyd taliad bonws i ysmygwyr yn y grŵp a wnaeth gyfnewid ysmegu'n llwyr am therapi disodli nicotin os oedd ganddynt ganlyniad prawf carbon monocsid (CO) o ≤ 4 ppm adeg y broses ddilysu, tra mai dim ond prawf CO yr oedd yn rhaid i'r grŵp cymharol ei wneud.

Gellir gweld manylion am nodweddion yr ymyriadau yn nhabl atodol 4 (Atodiad 2). Fe wnaethom nodi tri threial o ymyriadau ymddygiadol yn unig (Machulska *et al.*, 2021; Taylor *et al.*, 2023; Weng *et al.*, 2020); dau dreial o varenicline ac ymyriadau ymddygiadol (Ebbert *et al.*, 2015; Steinberg *et al.*, 2018); a phedwar treial o therapi disodli nicotin ac ymyriadau ymddygiadol (Farley *et al.*, 2017; Guo *et al.*, 2023; Hatsukami *et al.*, 2020; Zhao *et al.*, 2021). Prif nod dwy astudiaeth (Hatsukami *et al.*, 2020; Steinberg 2018) oedd i gyfranogwyr leihau ysmegu (heb darged penodol ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu), prif nod pedair astudiaeth (Guo *et al.*, 2023; Weng *et al.*, 2020; Zhao *et al.*, 2021; Machulska *et al.*, 2021) oedd rhoi'r gorau i ysmegu (heb darged penodol ar gyfer lleihau) a chyfunodd tair astudiaeth (Ebbert *et al.*, 2015; Taylor *et al.*, 2023; Farley *et al.*, 2017) dargedau rhoi'r gorau i ysmegu a lleihau ysmegu gan anelu'n benodol at roi'r gorau i ysmegu trwy leihau. Cyflwynir y gorgyffwrdd rhwng y ddwy ffordd o ddosbarthu ymyriadau yn nhabl 2:

Tabl 2: Dosbarthu treialon a gafodd eu cynnwys yn yr adolygiad yn ôl categori a chydrannau ymyriad

Ffigur categori 2	Cydrannau ymyriad		
	Cymorth ymddygiad yn unig	Cymorth ymddygiad + Varenicline	Cymorth ymddygiad + Therapi disodli nicotin
2. Lleihau		Steinberg <i>et al.</i> , 2018	Hatsukami <i>et al.</i> , 2020
3. Cyfunol	Taylor <i>et al.</i> , 2023	Ebbert <i>et al.</i> , 2015	Farley <i>et al.</i> , 2017
4. Rhoi'r gorau iddi	Machulska <i>et al.</i> , 2021; Weng <i>et al.</i> , 2020		Guo <i>et al.</i> , 2023; Zhao <i>et al.</i> , 2021

Nid oedd gan ddwy astudiaeth unrhyw feini prawf cymhwysedd ynghylch cymhelliant neu barodrwydd cyfranogwyr i leihau ysmegu neu roi'r gorau iddi (Guo *et al.*, 2023; Zhao *et al.*, 2021). Nododd Weng *et al.* (2020) y dylai cyfranogwyr fod yn barod i leihau ysmegu neu roi'r gorau iddi heb bennu amserlen. Recriwtiodd pum astudiaeth gyfranogwyr a oedd yn fodlon lleihau ysmegu ond nad oeddent yn fodlon neu'n bwriadu rhoi'r gorau iddi ar unwaith (Taylor *et al.*, 2023); o fewn mis (Ebbert *et al.*, 2015; Farley *et al.*, 2017; Steinberg *et al.*, 2018) neu o fewn tri mis (Hatsukami *et al.*, 2020). Er nad oedd yn ofynnol i gyfranogwyr fod yn barod i roi'r gorau iddi ar unwaith, roedd Ebbert *et al.* (2015) yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr geisio rhoi'r gorau iddi o fewn tri mis, ac fe wnaeth Machulska *et al.* (2021) recriwtio cyfranogwyr a oedd *wedi'u cymell* i roi'r gorau iddi ond o fewn y chwe mis nesaf yn unig, nid ar unwaith.

Hunan-adroddwyd yn bennaf ar ganlyniadau treialon ar gyfer lleihau ysmegu ond fe'u cyflwynwyd ochr yn ochr â newidiadau mewn carbon monocsid wedi'i anadlu allan (neu fiomarcwyr eraill) ac roeddent yn cynnwys: newid o ran nifer y sigaréts y dydd; lleihau ysmegu $\geq 50\%$ neu $\geq 75\%$ ar ôl wythnos i 18 mis ers y llinell sylfaen. Cafodd canlyniadau ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu eu dilysu'n bennaf ac roeddent yn cynnwys: cyfraddau ymatal parhaus ar ôl 4 wythnos i 18 mis o'r llinell sylfaen; ymatal parhaus ansefydlog; ymdrechion i roi'r gorau iddi; cyffredinolrwydd pwynt 7 diwrnod ar wahanol adegau ers y llinell sylfaen. Roedd dilysu ymatal wedi'i hunan-adrodd yn digwydd amlaf trwy garbon monocsid (CO) wedi'i anadlu allan, ond hefyd cotinin poer neu fiomarcwyr wrinol (Hatsukami *et al.*, 2020).

4.3 Arfarniad beirniadol

Cyflwynir canlyniadau'r arfarniad beirniadol yn Nhabl 3. Roedd pob astudiaeth yn mynd i'r afael â chwestiynau ymchwil clir, ond roedd rhai astudiaethau o ansawdd methodolegol uwch nag eraill. Yn gyffredinol, cynhaliwyd trefn hap-ddosbarthu cyfranogwyr, er yn Farley *et al.* (2017) ni pharchwyd y drefn o hap-ddosbarthu cyfranogwyr gan fferyllwyr. Ac eithrio dwy astudiaeth (Farley *et al.*, 2017; Hatsukami *et al.*, 2020), roedd astudiaethau yn ymwybodol o bob cyfranogwr ar ddiwedd y treialon.

Cynhaliwyd proses dallu cyfranogwyr yn y ddau dreial lle'r oedd Varenicline yn ymyriad (Ebbert *et al.*, 2015; Steinberg *et al.*, 2018). Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl yn y treialon eraill lle mae gwahaniaethau yn y dull ar gyfer cymorth ymddygiad yn hawdd i'w canfod neu lle na chymharwyd darpariaeth therapi disodli nicotin â therapi plasebo. Yn yr un modd, nid oedd bob amser yn bosibl i ymchwilwyr fod yn ddall i'r ymyriad yr oeddent yn ei gyflwyno. Roedd ymchwilwyr a oedd yn asesu'r canlyniadau wedi'u dallu, er na ddisgrifiwyd hyn mewn dwy astudiaeth (Hatsukami *et al.*, 2020; Machulska *et al.*, 2021). Ac eithrio Hatsukami *et al.*, 2020, adroddwyd ar ganlyniadau'r astudiaethau yn gynhwysfawr gan mwyaf, gyda chywirdeb yr amcangyfrif wedi'i ddarparu. Dim ond un astudiaeth (Taylor *et al.*, 2023) a ddarparodd dystiolaeth ar gost-effeithiolrwydd. Ystyriwyd bod canlyniadau chwe astudiaeth yn berthnasol i boblogaeth Cymru (Ebbert *et al.*, 2015; Hatsukami *et al.*, 2020; Steinberg *et al.*, 2018; Taylor *et al.*, 2023; Weng *et al.*, 2020; Zhao *et al.*, 2021).

Tabl 3: Canfyddiadau arfarniad beirniadol (yn seiliedig ar offeryn arfarnu beirniadol CASP ar gyfer hap-dreialon dan reolaeth)

	Ebbert <i>et al.</i> , 2015	Steinberg <i>et al.</i> , 2018	Taylor <i>et al.</i> , 2023	Weng <i>et al.</i> , 2020	Guo <i>et al.</i> , 2023	Zhao <i>et al.</i> , 2021	Machulska, <i>et al.</i> , 2021	Farley <i>et al.</i> , 2017	Hatsukami <i>et al.</i> , 2020
Cwestiwn									
Adran A – A yw dyluniad sylfaenol yr astudiaeth yn ddilys ar gyfer hap-dreial dan reolaeth?									
1. A wnaeth yr astudiaeth fynd i'r afael â chwestiwn ymchwil a oedd wedi'i lunio'n glir?	+	+	+	+	+	+	+	+	+
2. A gafodd cyfranogwyr eu neilltuo i ymyriadau ar hap?	+	+	+	+	+	+	+	-	MD
3. Ar ddiwedd yr astudiaeth, a oedd yr astudiaeth yn ymwybodol o bob cyfranogwr a oedd wedi cymryd rhan?	+	+	+	+	+	+	+	-	-
Adran B – A oedd yr astudiaeth yn gadarn yn fethodolegol?									
4. (a) A oedd y cyfranogwyr yn 'ddall' i'r ymyriad a gafodd ei roi iddynt?	+	+	-	-	-	-	MD	-	-
5. (b) A oedd yr ymchwilwyr yn 'ddall' i'r ymyriad yr oeddent yn ei roi?	+	+	-	-	-	-	MD	+	-
4. (c) A oedd y bobl oedd yn asesu/dadansoddi'r canlyniad/canlyniadau yn 'ddall' i bethau?	+	+	+	+	+	+	MD	+	MD
5. A oedd grwpiau'r astudiaeth yn debyg ar ddechrau'r treial?	+	+	+	+	+	-	+	-	+
6. Ar wahân i'r ymyriad arbrofol, a gafodd pob grŵp yr astudiaeth yr un lefel o ofal (hynny yw, a gawsant eu trin yn gyfartal)?	+	+	+	+	+	+	+	-	-
Adran C – Beth yw'r canlyniadau?									
7. A adroddwyd yn gynhwysfawr ar effeithiau'r ymyriad?	+	+	+	+	+	+	+	+	-
8. A adroddwyd ar gywirdeb yr amcangyfrif o effaith yr ymyriad?	+	+	+	+	+	+	+	+	-

9. A yw manteision yr ymyriad yn gorbwyso'r niwed a'r costau?	MD	MD	-	MD	MD	MD	MD	MD	MD
Adran D – A fydd y canlyniadau o gymorth yn lleol?									
10. A ellir defnyddio'r canlyniadau ar gyfer eich poblogaeth leol/yn eich cyd-destun?	+	+	+	+	MD	MD	-	MD	+

+ = Ie; - = Na; MD = Methu dweud

4.4 Dadansoddi Technegau Newid Ymddygiad

Mae Tabl 4 yn dangos crynodeb o'r technegau newid ymddygiad a gafodd eu defnyddio yn yr ymyriadau. Nodwyd 22 o dechnegau newid ymddygiad. Roedd ymyriadau unigol yn cynnwys rhwng 5 a 15 o dechnegau newid ymddygiad. Y technegau wedi'u cynnwys amlaf oedd 'cyfarwyddyd ar sut i gyflawni'r ymddygiad' (n=9 astudiaeth) ac 'adborth ar ganlyniadau ymddygiad' (n=9 astudiaeth). Defnyddiwyd 'ymddygiad pennu nodau' (n=7), 'cymorth ffarmacolegol' (n=6), 'gwybodaeth am ganlyniadau iechyd' (n=5) a 'gwobr (canlyniad)' (n=5) yn gyffredin hefyd.

Tabl 4: Crynodeb o dechnegau newid ymddygiad a gafodd eu defnyddio mewn ymyriadau yn yr adolygiad

	Ebbert <i>et al.</i>	Farley <i>et al.</i>	Guo <i>et al.</i>	Hatsukami <i>et al.</i>	Machulska <i>et al.</i>	Steinberg <i>et al.</i>	Taylor <i>et al.</i>	Weng <i>et al.</i>	Zhao <i>et al.</i>	CYFANSWM
1.1 Pennu nodau (ymddygiad)										7
1.2 Datrys problemau										3
1.3 Pennu nodau (canlyniad)										4
1.7 Canlyniad yr adolygiad (nod)										3
2.3 Hunan-fonitro ymddygiad										3
2.7 Adborth ar ganlyniadau ymddygiad										9
3.2 Cymorth cymdeithasol (ymarferol)										3
3.3 Cymorth cymdeithasol (emosiynol)										3
4.1 Cyfarwyddyd ar sut i gyflawni'r ymddygiad										9
5.1 Gwybodaeth am ganlyniadau iechyd										5
5.2 Amlygrwydd canlyniadau										1
6.2 Cymhariaeth gymdeithasol										1
8.4 Gwrthdroi arfer										4
8.7 Tasgau wedi'u graddio										2
10.8 Cymhelliant (canlyniad)										2
10.10 Gwobr (canlyniad)										5
11.1 Cymorth ffarmacolegol										6
12.2 Ailstrwythuro'r amgylchedd cymdeithasol										2
12.3 Osgoi/lleiau cysylltiad â thriniaethau										2
13.5 Hunaniaeth sy'n gysylltiedig ag ymddygiad wedi newid										1
15.1 Perswâd llafar ynghylch gallu										4
15.3 Canolbwyntio ar lwyddiant y gorffennol										1



CYFANSWM	10	9	15	7	5	6	10	9	9	
----------	----	---	----	---	---	---	----	---	---	--

4.5 Canlyniadau synthesisau

Mae canlyniadau ar effeithiolrwydd ymyriadau o'r naw astudiaeth wedi'u cynnwys wedi'u crynhoi ar ffurf naratif isod yn ôl y math o ymyriad a gafodd ei ddarparu i gyfranogwyr. Mae'r rhain wedi'u categoreiddio fel: ymyriadau ymddygiadol yn unig; therapi disodli nicotin *ynghyd ag* ymyriadau ymddygiadol; ac ymyriadau ffarmacolegol *ynghyd ag* ymyriadau ymddygiadol.

4.5.1 Ymyriadau ymddygiadol yn unig

Ymchwiliodd tair astudiaeth i effeithiolrwydd ymyriadau ymddygiadol yn unig (Machulska *et al.*, 2021; Taylor *et al.*, 2023; Weng *et al.*, 2020). Roedd y rhain yn cynnwys hyfforddiant realiti rhithwir gan ddefnyddio Addasu Rhagfarn Dull ynghyd â chwmsela ymddygiadol byr (Machulska *et al.*, 2021); cymorth ymddygiad er mwyn lleihau ysmegu a chynyddu gweithgarwch corfforol (Taylor *et al.*, 2023); a dulliau wedi'u haddasu ar gyfer atgyfeiriadau at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu (Weng *et al.*, 2020).

Cynhaliodd Machulska *et al.* (2021) hap-dreial dan reolaeth ddau ddull yn yr Almaen, a ddefnyddiodd Addasu Rhagfarn Dull wedi'i wreiddio mewn tasg Realiti Rhithwir. Nod yr awduron oedd archwilio a fyddai'r dull hwn yn addasu rhagfarnau gwybyddol presennol ar gyfer ysmegu ac yna'n newid ymddygiad ysmegu, er na ddisgrifiwyd targed penodol ar gyfer lleihau ysmegu neu roi'r gorau iddi. Cafodd cyfranogwyr eu cynnwys yn yr astudiaeth os oeddent yn hunan-adrodd cymhelliant i roi'r gorau i ysmegu o fewn y 6 mis nesaf. Yn y grŵp ymyriad, gofynnwyd i gyfranogwyr roi eitemau ag ymyl coch yn y bin sbwriel ac eitemau ag ymyl glas mewn blwch. Roedd eitemau ag ymyl coch yn gysylltiedig ag ysmegu, ac roedd eitemau ag ymyl glas yn eitemau nad oeddent yn gysylltiedig ag ysmegu. Gwnaeth cyfranogwyr yn y grŵp rheoli dasg debyg mewn realiti rhithwir, gan roi eitemau ag ymyl coch mewn blwch ar yr ochr dde ac eitemau ag ymyl glas mewn blwch ar yr ochr chwith. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gysylltiad rhwng eitemau yn gysylltiedig ag ysmegu a lliw'r ffin. Cymerodd y ddau grŵp ran mewn 6 sesiwn dros bythefnos. Cafodd pob cyfranogwr gwnsela ymddygiadol ar gyfer rhoi'r gorau i ysmegu hefyd, a chawsant fynediad at ap lle gallent gofnodi ac olrhain faint o sigarêts yr oeddent wedi'u ysmegu. Hunan-adroddwyd y canlyniadau a chawsant eu dilysu gan brawf CO ar y llinell sylfaen, ar ôl y prawf (pythefnos) ac yn yr apwyntiad dilynol (7-8 wythnos).

Ar gyfer y canlyniad *lleihau ysmegu*, nid oedd unrhyw dystiolaeth ystadegol arwyddocaol o effaith ymyriad gan fod y ddau grŵp wedi hunan-adrodd eu bod wedi ysmegu 8 i 10 sigarét yn llai y dydd dros 8 wythnos. I ddechrau, roedd y grŵp ymyriad wedi dechrau ysmegu llai o sigarêts yn gynt (-1.36 SE 0.43 sigarêts y dydd; $p=0.001$) na'r grŵp rheoli. Fodd bynnag, roedd cyfradd y gostyngiad mewn ysmegu wedi lleihau dros amser, sy'n golygu, rhwng 4 ac 8 wythnos, bod nifer y sigarêts wedi'u hysmegu y dydd wedi dechrau cynyddu eto, yn enwedig yn y grŵp arbrolfol. Felly ar ôl 8 wythnos roedd y cyfraddau ysmegu wedi lleihau yr un faint yn y ddau grŵp.

Ar gyfer y canlyniad *rhoi'r gorau i ysmegu*, nid oedd unrhyw dystiolaeth ystadegol arwyddocaol o effaith ymyriad ar ôl 3 na 7 wythnos ychwaith. Ar ôl 3 wythnos, hunan-adroddodd 27% o ysmygwyr yn y grŵp ymyriad eu bod wedi rhoi'r gorau i ysmegu, o'i gymharu ag 16% o ysmygwyr yn y grŵp rheoli ($p=0.674$). Ar ôl 7 wythnos, roedd 22% o ysmygwyr yn y grŵp ymyriad wedi rhoi'r gorau i ysmegu, o'i gymharu â 23% o ysmygwyr yn y grŵp rheoli ($p=0.754$). Er bod y ddau grŵp wedi lleihau ysmegu, cadarnhaodd dadansoddiad o newidiadau mewn carbon monocsid wedi'i anadlu allan nad oedd unrhyw wahaniaethau mewn faint yn llai o ysmegu oedd yn digwydd rhwng y grwpiau (12.3 (SD 11.2) ppm a 13.6 (SD 7.4) ppm yn y grwpiau ymyriad a rheoli ar ôl 9 wythnos, ($p=0.807$)).

I grynhoi, nid oedd unrhyw dystiolaeth ystadegol arwyddocaol o unrhyw effaith ar ganlyniadau lleihau ysmegu neu roi'r gorau iddi wedi'u hunan-adrodd ar ôl 8 wythnos, wedi'u cefnogi gan fesuriadau carbon monocsid wedi'u dilysu. Ystyriwyd bod yr astudiaeth hon o ansawdd uwch, er nad oedd yn glir a oedd cyfranogwyr ac ymchwilwyr a oedd yn dadansoddi canlyniadau yn ddall i sut yr oedd y grŵp wedi'i ddyrannu (ymyriad neu reoli).

Cynhaliodd **Taylor et al. (2023)** hap-dreial dan reolaeth ddau ddull yn y DU er mwyn archwilio a oedd cymorth ymddygiad er mwyn lleihau ysmegu a chynyddu gweithgarwch corfforol yn effeithiol wrth leihau ysmegu ac ymestyn cyfnod ymatal. Cafodd cyfranogwyr eu cynnwys os oeddent am leihau ysmegu ond ddim am roi'r gorau iddi ar unwaith. Derbyniodd y grŵp ymyriad wyth sesiwn wythnosol o gymorth ymddygiad wyneb yn wyneb neu dros y ffôn a barhaodd rhwng 10 a 60 munud er mwyn lleihau ysmegu a chynyddu gweithgarwch corfforol. Roedd cymorth 6 wythnos ychwanegol ar gael ar gais i'r rhai a oedd yn dymuno rhoi'r gorau iddi. Dim ond cyngor ysgrifenedig byr ar roi'r gorau i ysmegu a gafodd y grŵp rheoli ynghyd â chael eu cyfeirio at wasanaethau lleol. Cafodd ysmegu ei hunan-adrodd a darparodd y rhai a nododd eu bod wedi ceisio rhoi'r gorau iddi ar ôl 3 a 9 mis ddata CO wedi'i anadlu allan. Darparodd y rhai a gafodd eu cadarnhau'n rhai sy'n ymatal ar ôl naw mis CO wedi'i anadlu allan ar ôl 15 mis.

Ar gyfer y canlyniad *lleihau ysmegu*, roedd tystiolaeth bod ymyriad wedi arwain at ysmegu $\geq 50\%$ yn llai na'r llinell sylfaen (o ran ysmegu wedi'i hunan-adrodd) gyda 18.9% o'r grŵp ymyriad o'i gymharu â 10.5% o'r grŵp rheoli yn cyrraedd y nod hwnnw ar ôl tri mis (OR=1.98; CH 95%=1.35 i 2.90; $p<0.0004$). Roedd yr effaith yn llai ar ôl 9 mis, gyda 14.4% o gyfranogwyr yn y grŵp ymyriad o'i gymharu â 10.0% o gyfranogwyr yn y grŵp rheoli yn ysmegu o leiaf 50% yn llai na'r llinell sylfaen (OR=1.52; CH 95%=1.01 i 2.29; $p=0.043$). Mewn termau absoliwt, roedd y gwahaniaeth cymedrol wedi'i addasu mewn sigarêts wedi'u hysmygu y dydd ar ôl tri mis oedd 5.6 sigarét yn llai yn y grŵp ymyriad (AMD= -5.62; CH 95%=-9.80 i -1.44; $p=0.009$). Ond erbyn naw mis roedd y gwahaniaeth yn llawer llai (dim ond 1 sigarét y dydd) ac nid oedd yn ystadegol arwyddocaol mwyach (AMD=-0.95; CH 95%=-5.37 i 3.46; $p=0.67$).

Ar gyfer y canlyniad *rhoi'r gorau i ysmegu*, gwnaeth ychydig mwy o'r grŵp ymyriad o'i gymharu â'r grŵp rheoli ymgais i roi'r gorau iddi (17% o'i gymharu â 15%) a chadarnhawyd eu bod yn ymatal (9% o'i gymharu â 4%) ar ôl 6 mis. Ond nid oedd y naill ganlyniad na'r llall yn cyfateb i wahaniaeth ystadegol arwyddocaol (OR= 1.15, CH 95%= 0.8 i 1.64 ar gyfer ymdrechion i roi'r gorau iddi, ac OR=2.30, CH 95%=0.70 i 7.56 ar gyfer ymatal). Cadarnhawyd bod llai fyth o gyfranogwyr yn ymatal ar ôl deuddeg mis (6% o'r grŵp ymyriad ac 1% o'r grŵp rheoli, OR= 6.33, CH 95%=0.76 i 53.10). Ond unwaith eto nid oedd yn wahaniaeth ystadegol arwyddocaol.



Ar gyfer y canlyniad *cost-ffeithiolrwydd*, amcangyfrifwyd mai cost uniongyrchol yr ymyriad oedd £239.18 y pen (gyda dadansoddiadau manwl gywir yn amrywio o £204 i £292). Amcangyfrifwyd bod yr ymyriad yn arwain at gynnydd anarwyddocaol yn ystadegol mewn costau o £173.50 (CH 95%= -£353.82 i £513.77) a gostyngiad anarwyddocaol yn ystadegol mewn Blynnyddoedd Bywyd wedi'u Haddasu yn ôl Ansawdd o -0.006 (CH 95%= -0.033 i 0.021), o'i gymharu â'r grŵp rheoli. Felly nid oedd unrhyw dystiolaeth o gost-ffeithiolrwydd.

Roedd dystiolaeth bod yr ymyriad, o'i gymharu â chynghor byr, bron wedi dyblu'r tebygolrwydd y byddai cyfranogwyr yn haneru eu harfer ysmegu sylfaenol ar ôl 3 mis, sy'n cyfateb i ostyngiad ychwanegol cyfartalog o 5.6 sigarét y dydd yn y grŵp ymyriad. Fodd bynnag, erbyn 9 mis 1 sigarét y dydd yn unig oedd y gostyngiad ychwanegol cyfartalog yn y grŵp ymyriad o'i gymharu â'r grŵp rheoli. Ni chafodd y gostyngiadau cynnar mewn ysmegu ar ôl 3 mis eu cynnal ar ôl 9 mis ac ni arweiniodd at ymatal yn fwy ar ôl 6 na 12 mis. Roedd yr astudiaeth hon wedi'i chynllunio'n dda ac fe'i hystyriwyd o ansawdd uwch, ond ni ddangosodd yr ymyriad unrhyw dystiolaeth o gost-ffeithiolrwydd.

Roedd **Weng et al. (2020)** yn hap-dreial tri dull a gymharodd lyfryn hunangymorth rhoi'r gorau i ysmegu 12 tudalen yn unig (grŵp rheoli) â dau ddull 12 wythnos gwahanol ar gyfer atgyfeiriadau â chymorth at wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu ar gyfer ysmegwyr mewn mannau poblogaidd yn y gymuned yn Hong Kong. Disgrifiwyd y dulliau hyn fel 1) atgyfeiriad ar y safle: lle'r oedd cwnselwyr yn helpu cyfranogwyr parod i wneud apwyntiadau gyda gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu. Derbyniodd y cyfranogwyr hefyd neges atgoffa wedi'i theilwra i ddyddiad eu hapwyntiad a negeseuon testun dyddiol am fis; 2) atgyfeiriad dros negeseuon testun: ni chafodd y cyfranogwyr eu hatgyfeirio ar y safle ond cawsant 16 o negeseuon testun yn unol ag amserlen sefydlog dros 2 fis. Derbyniodd y ddau grŵp ymyriad yr un llyfryn hunangymorth â'r grŵp rheoli hefyd; a hefyd daflen rhybudd iechyd am effeithiau niweidiol ysmegu; cerdyn atgyfeirio er mwyn defnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu; ac awgrymiadau i ddefnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu yn ystod apwyntiad dilynol dros y ffôn ar ôl 1, 2 a 3 mis. Cafodd yr ymyriad ei gynllunio i gynnwys cyfranogwyr a oedd naill ai'n fodlon rhoi'r gorau i ysmegu neu leihau ysmegu. Ni chafodd unrhyw darged penodol ar gyfer lleihau na rhoi'r gorau iddi ei ddisgrifio. Hunan-adroddwyd y canlyniadau drwy holiadur ar y llinell sylfaen a dros y ffôn ar ôl 1, 2, 3, 6, a 18 mis. Cafodd data CO wedi'i anadlu allan eu dilysu, a chafodd hyn ei gofnodi'n bersonol gan bawb ar y llinell sylfaen, ond dim ond y rhai a oedd yn hunan-adrodd eu bod wedi rhoi'r gorau i ysmegu am 7 diwrnod a hwy ar ôl 3, 6, a 18 mis a gafodd brawf dilysu.

Ar gyfer y canlyniad *lleihau ysmegu*, ar ôl 3 mis nid oedd unrhyw dystiolaeth ystadegol arwyddocaol o effaith ymyriad ar y tebygolrwydd o ysmegu o leiaf 50% yn llai na'r llinell sylfaen ar gyfer naill ai atgyfeiriad ar y safle (18.7%) neu atgyfeiriad dros negeseuon testun (16.9%) o'i gymharu â'r grŵp rheoli (16.2%). Cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu y grŵp atgyfeiriad ar y safle oedd 1.21 (CH 95% = 0.79 i 1.85) a chymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu y grŵp atgyfeiriad dros negeseuon testun oedd 1.29 (CH 95% = 0.85 i 1.97). Yn yr un modd, ar ôl 6 mis, nid oedd canran y cyfranogwyr a oedd yn ysmegu hanner cymaint â'r llinell sylfaen yn wahanol yn ystadegol rhwng y grŵp atgyfeiriad ar y safle (20.3%), y grŵp atgyfeiriad dros negeseuon testun (16.1%), a'r grŵp rheoli (19.3%). Cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu y grŵp atgyfeiriad ar y safle oedd 0.90, (CH 95%= 0.60 i 1.33); a chymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu y grŵp atgyfeiriad dros negeseuon testun

oedd 0.84 (CH 95%=0.56 i 1.26). Ar ôl 18 mis, roedd tystiolaeth bod mwy o gyfranogwyr yn y grŵp atgyfeiriad ar y safle (14.2%) yn ysmegu hanner cymaint â'r cychwyn o'i gymharu â'r grŵp rheoli (10.4%), cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu= 1.74, (CH 95%= 1.05 i 2.91). Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wahaniaeth rhwng y grŵp atgyfeiriad dros negeseuon testun a'r grŵp rheoli, gyda'r grŵp atgyfeiriad dros negeseuon testun hefyd yn cynnwys 10.4% o gyfranogwyr a oedd yn ysmegu hanner cymaint â'r llinell sylfaen ar ôl 18 mis (cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu= 1.33, CH 95%=0.79 i 2.26).

Ar gyfer y canlyniad *rhoi'r gorau i ysmegu*, roedd cyfranogwyr a oedd yn derbyn atgyfeiriad ar y safle yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu (OR= 6.99, CH 95%=1.09 i 11.94). Yn ôl ymatal wedi'i hunan-adrodd, roedd mwy o'r grŵp atgyfeiriad ar y safle a'r grŵp atgyfeiriad dros negeseuon testun wedi ymatal ar ôl 3 mis o'u cymharu â'r grŵp rheoli (14.4%, CH 95%=13.0%, 8.6% yn y drefn honno) a 6 mis (17.7%, 17.1%, 12.0% yn y drefn honno). Ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ystadegol gref o wahaniaeth mewn cyfraddau ymatal wedi'u hunan-adrodd rhwng grwpiau ar unrhyw adeg (cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu ar ôl 3 mis o atgyfeiriad ar y safle= 1.54 CH 95%=0.96 i 2.49; cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu y grŵp atgyfeiriad dros negeseuon testun= 1.32 CH 95%=0.81 i 2.15; cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu ar ôl 6 mis o'r grŵp atgyfeiriad ar y safle= 1.56, CH 95%=1.00 i 2.42, cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu y grŵp atgyfeiriad dros negeseuon testun= 1.40, CH 95%=0.90 i 2.19). Roedd yr amcangyfrifon wedi'u dilysu ar gyfer ymatal oddeutu hanner yr amcangyfrifon wedi'u hunan-adrodd gyda dim ond 7.6% o'r grŵp atgyfeiriad ar y safle, 7.8% o'r grŵp atgyfeiriad dros negeseuon testun a 3.9% o'r grŵp rheoli wedi'u cadarnhau'n rhai sy'n ymatal ar ôl 6 mis. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith ymyriad ar gyfraddau ymatal rhag ysmegu wedi'u dilysu ar ôl 6 mis (cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu y grŵp atgyfeiriad ar y safle= 1.83 CH 95%=0.95 i 3.53; cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu y grŵp atgyfeiriad dros negeseuon testun= 1.82, CH 95%=0.94 i 3.52).

Ar gyfer y canlyniad *cost-effeithiolrwydd*, roedd y gost amcangyfrifedig fesul cyfranogwr a oedd yn nodi eu bod yn ymatal ar ôl 6 mis yn debyg ar gyfer y grŵp atgyfeiriad ar y safle (US\$124.8) a'r grŵp atgyfeiriad dros negeseuon testun (US\$131.9), a oedd ill dau tua 30% yn is na chost y grŵp rheoli (US\$180.7). Nid yw cywirdeb yr amcangyfrifon cost hyn wedi'i amcangyfrif ond o ystyried bod tystiolaeth gyfyngedig o effeithiolrwydd yr ymyriad hwn, mae'n annhebygol y bydd yn gost-effeithiol er gwaethaf y costau is.

I grynhoi, nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith ar haneru'r ysmegu ar y llinell sylfaen wedi'i hunan-adrodd ar ôl 1, 2, 3, neu 6 mis ar gyfer atgyfeiriad ar y safle neu dros negeseuon testun o'i gymharu â'r grŵp rheoli. Mewn cyferbyniad, roedd tystiolaeth o effaith ar haneru'r ysmegu ar y llinell sylfaen ar ôl 18 mis ar gyfer atgyfeiriad ar y safle, ond nid atgyfeiriad dros negeseuon testun, o'i gymharu â'r grŵp rheoli. Roedd yna dystiolaeth wan fod ymatal wedi'i hunan-adrodd yn uwch ar ôl 6 mis ar gyfer atgyfeiriad ar y safle o'i gymharu â'r grŵp rheoli, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth yn cefnogi effaith ar ôl 3, na 18 mis. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith naill ai atgyfeiriad ar y safle na negeseuon atgoffa drwy negeseuon testun o'u cymharu â chynghor byr ar ymatal rhag ysmegu wedi'i ddilysu ar ôl 6 mis. Ystyriwyd bod yr astudiaeth hon o ansawdd uchel, a'r unig broblem oedd yn ymwneud â dallu ymyriad.

Yn y detholiad amrywiol hwn o ymyriadau ymddygiadol, ni chanfuom unrhyw dystiolaeth bod unrhyw ddull wedi newid y tebygolrwydd o ymatal wedi'i ddilysu ar ôl 8 wythnos (Machulska *et al.* 2021), 6 mis (Taylor *et al.* 2023; Weng *et al.* 2020) neu 12 mis (Taylor *et al.* 2023). Tra bod Weng *et al.* (2020) wedi adrodd rhywfaint o dystiolaeth o effaith naill ai atgyfeiriad ar y safle neu atgyfeiriad dros negeseuon testun o'i gymharu â chyngor byr ar ymatal wedi'i hunan-adrodd ar ôl 6 mis, roedd y dystiolaeth yn anghyson ar adegau eraill ac ni chafodd ei chefnogi gan ganlyniadau wedi'u dilysu. Roedd rhywfaint o dystiolaeth gan Taylor *et al.* (2023) a Weng *et al.* (2020) y gallai'r rhai sy'n derbyn ymyriad ymddygiadol ysmegu 50% yn llai na'r llinell sylfaen, yn amlach. Ond roedd dystiolaeth o effeithiau ar adeg gynnar (4 wythnos neu 3 mis) yn wannach ar adegau diweddarach (8 wythnos neu 9 mis). Felly, nid yw dystiolaeth o'r ymyriadau ymddygiadol hyn yn cefnogi effaith barhaus ar leihau ysmegu na chyfraddau rhoi'r gorau i ysmegu ac ymatal rhag ysmegu gwell.

4.5.2 Ymyriadau ffarmacolegol (varenicline) ynghyd ag ymyriadau ymddygiadol

Mesurodd dwy astudiaeth effeithiolrwydd Varenicline a roddwyd ochr yn ochr ag ymyriad ymddygiadol (Ebbert *et al.*, 2015; Steinberg *et al.*, 2018). Derbyniodd cyfranogwyr yn yr astudiaeth gan Ebbert *et al.* (2015) lyfryn rhoi'r gorau i ysmegu a chwmsela ymddygiadol wedi'i deilwra yn ogystal â Varenicline. Derbyniodd cyfranogwyr yn yr astudiaeth gan Steinberg *et al.* (2018) strategaethau ar gyfer lleihau ysmegu a chwmsela, gan gynnwys un sesiwn cyfweld ysgogiadol ochr yn ochr â Varenicline.

Roedd Ebbert *et al.* (2015) yn ymyriad cyfunol a gymharodd effeithiolrwydd Varenicline wedi'i ditradu i 1mg ddwywaith y dydd am 24 wythnos o'i gymharu â phlasebo ar leihau ysmegu a rhoi'r gorau i ysmegu. Gallai unigolion ymuno â'r treial os nad oeddent yn barod i roi'r gorau i ysmegu o fewn mis, ond eu bod yn fodlon lleihau a cheisio rhoi'r gorau iddi o fewn 3 mis. Cafodd targedau eu pennu ar gyfer cyfranogwyr ar gyfer lleihau sigarêts $\geq 50\%$ o'r llinell sylfaen hyd at 4 wythnos a $\geq 75\%$ o'r llinell sylfaen hyd at 8 wythnos. Gofynnwyd iddynt geisio rhoi'r gorau iddi erbyn 12 wythnos. Cynhaliwyd y treial ar draws deg gwlad, gan gynnwys y DU. Y 12 wythnos gyntaf o driniaeth yn y treial oedd y cyfnod lleihau a'r 12 wythnos nesaf oedd y cyfnod ymatal. Derbyniodd pob cyfranogwr gwmsela rhoi'r gorau i ysmegu wedi'i deilwra a lyfryn *Clearing the Air: Quit Smoking Today*. Roedd y chwmsela yn cyd-fynd ag argymhellion canllawiau ymarfer clinigol "Treating Tobacco Use and Dependence". Cafodd chwmselwyr eu hannog i fod yn gyson ac yn gryno, i ganolbwyntio ar ddatrys problemau (e.e. beth sy'n sbarduno'r awydd i ysmegu) a hyfforddiant sgiliau (e.e. camau ymarferol er mwyn osgoi ysmegu), ac i dynnu sylw at llwyddiannau nid methiannau. Roedd cyngor lleihau yn cynnwys cynyddu'r amser rhwng sigarêts; a threfnu sigarêts yn ôl yr un hawsaf i'r anoddaf i roi'r gorau iddynt. Hunan-adroddwyd am y defnydd o dybaco a chafwyd mesuriadau carbon monocsid (CO) wedi'i anadlu allan ym mhob ymweliad â'r clinig.

Ar gyfer y canlyniad *lleihau ysmegu*, roedd dystiolaeth ystadegol arwyddocaol o effaith ymyriad ar hunan-adroddiadau o leihau ysmegu $\geq 50\%$ 4 wythnos o'r llinell sylfaen ar gyfer 47.1% o gyfranogwyr a dderbyniodd Varenicline, ac ar gyfer 31.1% o gyfranogwyr a dderbyniodd blasebo (CR=1.5, CH 95%=1.3 i 1.7), a leihau ysmegu $\geq 75\%$ 8 wythnos ers y llinell sylfaen ar gyfer 26.3% o gyfranogwyr a dderbyniodd Varenicline, ac ar gyfer 15.1% o gyfranogwyr a dderbyniodd blasebo (CR=1.8, CH 95%=1.4 i 2.2).

Ar gyfer y canlyniad *rhoi'r gorau i ysmegu*, roedd tystiolaeth hefyd o effaith ymyriad ar lefel ymatal parhaus wedi'i dilysu rhwng 15 a 24 wythnos (32.1% o'r grŵp Varenicline o'i gymharu â 6.9% o'r grŵp plasebo, CR=4.6, CH 95%=3.5 i 6.1). Ymhlith cyfranogwyr a oedd yn ymatal rhwng 15 a 24 wythnos, yr amser canolrifol i ymatal oedd 50 diwrnod (7 wythnos) ar gyfer Varenicline o'i gymharu â 85 diwrnod (12 wythnos) ar gyfer plasebo ($p < 0.0001$).

I grynhoi, o ganlyniad i ddarparu 1mg o Varenicline ddwywaith y dydd ochr yn ochr â chymorth ymddygiad i leihau ysmegu am 12 wythnos, ac yna 12 wythnos o gymorth ymddygiad i roi'r gorau i ysmegu, cynyddodd canran y cyfranogwyr a oedd yn ysmegu 50% yn llai na'r llinell sylfaen ar ôl 4 wythnos a 75% yn llai ar ôl 8 wythnos. Roedd ysmegu llai a llai hefyd yn arwain at roi'r gorau i ysmegu'n gynharach erbyn 5 wythnos a chynnal ymatal parhaus yn well rhwng 15 a 24 wythnos. Roedd hon yn astudiaeth o ansawdd uchel.

Cynhaliodd **Steinberg et al. (2018)** dreial prawf cysyniad bach hyd 4 wythnos yn UDA yn archwilio effeithiolrwydd Varenicline wedi'i ditradu i 1mg ddwywaith y dydd ar leihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi. Roedd unigolion yn gymwys i gymryd rhan os oeddent â diddordeb mewn ysmegu llai, ond heb roi'r gorau iddi o fewn 30 diwrnod. Rhoddwyd gwybodaeth i bob cyfranogwr ynghylch defnyddio meddyginiaeth a strategaethau ar gyfer lleihau faint roeddent yn ei ysmegu. Ymyriad lleihau ysmegu oedd hwn gyda 4 sesiwn cwnsela wythnosol a oedd yn para 20 neu 35 munud lle cafodd cyfranogwyr eu hannog i *leihau ysmegu*. Yn ymweliad pedwar, cawsant ymyriad wedi'i addasu o gyfweliadau ysgogol, ac yna cyngor i *roi'r gorau iddi*, er na phennwyd dyddiad targed ar gyfer rhoi'r gorau iddi yn rhan o'r ymyriad. Hunan-adroddwyd y canlyniadau a'u dilysu gyda mesuriadau CO wedi'i anadlu allan.

Ar gyfer y canlyniad *leihau ysmegu*, roedd 38% o'r cyfranogwyr a oedd yn derbyn Varenicline o'i gymharu â 20% o gyfranogwyr yn y grŵp plasebo yn hunan-adrodd eu bod yn ysmegu 50% yn llai na'r llinell sylfaen ar ôl 6 mis. Nid oedd hyn yn ystadegol arwyddocaol (OR=2.45; CH 95%= 0.53 i 11.38; $p=0.2553$). Mewn termau absoliwt, 1 sigarét yn unig oedd y gwahaniaeth mewn ysmegu ar ôl 6 mis rhwng y grwpiau ($p=0.363$). Roedd y grŵp Varenicline a'r grŵp rheoli wedi lleihau faint tebyg (4 i 5 sigarét y dydd), o gyfartaledd o 14 i 10 sigarét y dydd, tra bod y grŵp plasebo wedi lleihau o 16 i 11 sigarét y dydd.

Ar gyfer y canlyniad *rhoi'r gorau i ysmegu*, nid oedd unrhyw dystiolaeth ystadegol arwyddocaol o effaith ymyriad ar ymdrechion rhoi'r gorau i ysmegu na chrynodeiadau carbon monocsid ychwaith. Gwnaeth tri deg dau y cant o'r grŵp Varenicline ymgais i roi'r gorau iddi erbyn 6 mis, o'i gymharu â 14% yn y grŵp plasebo, er nad oedd hwn yn wahaniaeth ystadegol arwyddocaol (OR= 2.44, CH 95%=0.65 i 9.12). Roedd gan y ddau grŵp lefelau is o garbon monocsid (CO) ar ddiwedd y driniaeth ($p < 0.001$), ar ôl mis ($p=0.035$), a'r apwyntiad dilynol ar ôl 6 mis ($p=0.045$), gan ddilysu'r ysmegu wedi'i hunan-adrodd ar gyfer y ddau grŵp. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith ymyriad gan nad oedd faint y gwnaeth carbon monocsid leihau yn sylweddol wahanol yn ystadegol rhwng grwpiau ar ôl 6 mis (cymhareb=1.04; CH 95%: 0.78 to 1.38; $p=0.812$).

I grynhoi, ni wnaeth darparu 1mg o Varenicline ddwywaith y dydd ochr yn ochr â chymorth ymddygiad i leihau ysmegu am 28 diwrnod heb bennu unrhyw nodau rhoi'r gorau i ysmegu wella canlyniadau lleihau ysmegu neu roi'r gorau iddi wedi'u dilysu yn fwy na phlasebo erbyn yr apwyntiad dilynol ar ôl 6 mis. Roedd hon yn astudiaeth o ansawdd uwch, ond gallai lefel isel o



hyder yn yr effeithiau fod o ganlyniad i faint cymharol fach y sampl a'r cyfnod ymyriad llawer byrrach.

Mae tystiolaeth gref o effeithiolrwydd ar gyfer cyfraddau uwch o leihau ysmegu a rhoi'r gorau i ysmegu o un astudiaeth ryngwladol fawr o ansawdd uwch o Varenicline ynghyd â chymorth ymddygiad (Ebbert *et al.* 2015). Mae hyn yn gyson â'r amcangyfrifon effaith ond nid arwyddocâd ystadegol ar gyfer lleihau ysmegu o astudiaeth arall o ansawdd uwch ond llai gydag ymyriad byrrach yn cefnogi lleihau ysmegu ond nid rhoi'r gorau iddi (Steinberg *et al.* 2018). Canfu Ebbert *et al.* (2015) dystiolaeth, yng nghyd-destun ymyriad cyfunol gyda 12 wythnos o gymorth ymddygiad i leihau ysmegu ac yna 12 wythnos o gymorth ymddygiad i roi'r gorau i ysmegu, fod cyfranogwyr a oedd yn derbyn 1mg o Varenicline ddwywaith y dydd bedair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cynnal lefel ymatal parhaus (wedi'i dilysu gan garbon monocsid) ar ôl 6 mis na'r rhai a oedd yn derbyn plasebo. Tra bod Steinberg *et al.* (2018) heb ganfod unrhyw wahaniaethau mewn lefelau carbon monocsid ar ôl 6 mis ar ôl darparu 4 wythnos o gymorth ymddygiad ar gyfer lleihau ysmegu (ond nid rhoi'r gorau iddi) ochr yn ochr â 1mg o Varenicline ddwywaith y dydd neu blasebo. At ei gilydd, gallai cefnogi ymyriadau ymddygiadol gyda Varenicline fod yn ddull pwerus ar gyfer lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi. Gallai ymchwil pellach gadarnhau pwysigrwydd hyd ymyriad a'r angen am nodau lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi cyfunol fel y'u defnyddiwyd gan Ebbert *et al.* (2015) yn hytrach na dull lleihau yn unig fel y'i defnyddiwyd gan Steinberg *et al.* (2018).

4.5.3 Therapi disodli nicotin ynghyd ag ymyriadau ymddygiadol

Archwiliodd pedair astudiaeth o ansawdd is effeithiolrwydd therapi disodli nicotin a gafodd ei ddarparu ochr yn ochr ag ymyriad ymddygiadol (Farley *et al.*, 2017; Guo *et al.*, 2023; Hatsukami *et al.*, 2020; Zhao *et al.*, 2021). Roedd yr elfen ymddygiadol yn yr astudiaethau hyn yn cynnwys rhaglen fferylliaeth gymunedol yn cynnig therapi disodli nicotin ynghyd â chymorth ymddygiad i leihau ysmegu ac yna rhoi'r gorau iddi am fis neu 4 mis (Farley *et al.*, 2017), cymorth ymddygiad personol i roi'r gorau i ysmegu trwy negeseuon gwib a sgwrsfot am 3 mis (Guo *et al.*, 2023), cwnsela byr ar leihau ysmegu am 2 fis (Hatsukami *et al.*, 2020), a chymorth ymddygiad personol i roi'r gorau i ysmegu trwy negeseuon gwib am 2 fis (Zhao *et al.*, 2021).

Cynhaliodd Farley *et al.* (2021) astudiaeth ddichonoldeb o dreial ffactoraidd 2x2 i ymchwilio i effeithiolrwydd rhaglen cymorth ymddygiad fyrrach (4 wythnos) o'i chymharu â rhaglen hunangymorth safonol (16 wythnos) ar gyfer lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi mewn fferyllfeydd cymunedol yng nghanol dinas Birmingham, y DU. Roedd unigolion yn gymwys os nad oeddent yn bwriadu rhoi'r gorau i ysmegu o fewn mis ond eu bod am leihau ysmegu. Neilltuwyd cyfranogwyr i naill ai cymorth ymddygiad am 16 wythnos (grŵp 1) neu 4 wythnos (grŵp 2), neu ddeunyddiau hunangymorth am 16 wythnos (grŵp 3) neu 4 wythnos (grŵp 4). Waeth beth fo'r grŵp, derbyniodd yr holl gyfranogwyr therapi disodli nicotin am 9 mis, rhoddwyd cyngor iddynt ar leihau ysmegu mewn pedwar cam, gofynnwyd iddynt yn rheolaidd a oeddent yn teimlo'n barod i roi'r gorau iddi ac os felly, cynigiwyd atgyfeiriad iddynt i raglen rhoi'r gorau i ysmegu. Roedd y canlyniadau'n cynnwys 'ymatal parhaus ansefydlog', a ddiffinnir fel ymatal wedi'i hunan-gofnodi (neu hyd at gyfanswm o 5 sigarét wedi'u hysmygu) dros 4 wythnos, gan ddechrau ar unrhyw adeg o ddiwrnod 15 ar ôl y dyddiad rhoi'r gorau iddi. Roedd y pedwar cam i leihau ysmegu yn cynnwys lleihau faint o sigarét a gaiff eu hysmygu: Cam 1: 25% o'r llinell sylfaen; Cam 2: 50% o'r llinell



sylfaen; Cam 3: 75% o'r llinell sylfaen; Cam 4: 100% o'r llinell sylfaen. Gofynnwyd iddynt hefyd geisio rhoi'r gorau iddi yng nghanam 4. Hunan-adroddwyd y canlyniadau a'u dilysu gan CO wedi'i anadlu allan 4 wythnos a 6 mis ar ôl rhoi'r gorau iddi ar gyfer y rhai a ddatganodd eu bod yn ymatal.

Ar gyfer y canlyniad *lleihau ysmegu*, nid oedd unrhyw dystiolaeth ystadegol arwyddocaol o effaith ar barhau i ysmegu 50% yn llai na'r llinell sylfaen rhwng 9 a 12 mis ar gyfer y naill ffactor na'r llall (1. dull cyflwyno ymyriad, cymorth ymddygiad o'i gymharu â hunangymorth; neu 2. hyd yr ymyriad, 4 wythnos o'i gymharu â 16 wythnos). Er bod 8.8% o gyfranogwyr yn y rhaglenni 4 wythnos a 2.9% o gyfranogwyr yn y rhaglenni 16 wythnos wedi parhau i ysmegu llai, nid oedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol (CR= 3.00; CH 95%=0.45 i 20.44). Parhaodd cyfanswm o 8.3% o gyfranogwyr a gafodd gymorth ymddygiad o'i gymharu â 3.1% o gyfranogwyr yn y grwpiau hunangymorth i ysmegu llai ond nid oedd y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol (CR=2.67; CH 95%=0.40 i 18.19). Mewn termau absoliwt dros 12 mis, roedd nifer y sigarêts a gafodd eu hysmygu y dydd wedi lleihau 2.29 o ran ffigur cymedr wedi'i gronni (SD=7.9) yn y cyfnod 4 wythnos, 2.26 (SD=5.4) yn y cyfnod 16 wythnos, 1.58 (SD=7.2) yn y grŵp cymorth ymddygiad, a 3.36 (SD=6.1) yn y grŵp hunangymorth, ac nid oedd yr un ohonynt yn wahanol yn ystadegol.

Ar gyfer y canlyniad *rhoi'r gorau i ysmegu*, nid oedd hyd yr ymyriad yn cael unrhyw effaith, gyda 8.8% o'r cyfranogwyr yn y rhaglenni 4 a 16 wythnos yn cyflawni ymatal parhaus ansefydlog 4 wythnos ar ôl rhoi'r gorau iddi (CR=1.00; CH 95%= 0.24 i 4.10). Roedd llai o gyfranogwyr a oedd wedi derbyn cymorth ymddygiad yn pennu dyddiad rhoi'r gorau iddi na'r rhai a oedd wedi derbyn hunangymorth (9% o'i gymharu â 21%). Yn yr un modd, roedd ymatal parhaus ansefydlog 4 wythnos ar ôl rhoi'r gorau iddi yn llai cyffredin ymhlith y rhai a oedd yn cael cymorth ymddygiad o'u cymharu â chyfranogwyr a oedd yn cael hunangymorth (5.5% o'i gymharu â 12.5%), ond nid oedd yr un o'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau yn ystadegol arwyddocaol (risg gymharol 0.44; CH 95%= 0.10 i 1.95).

I grynhoi, nid oedd unrhyw dystiolaeth o effaith ar leihau ysmegu neu roi'r gorau iddi yn seiliedig ar hyd na dull cyflwyno ymyriad cymorth ymddygiad a gefnogir gyda therapi disodli nicotin. Astudiaeth o ansawdd is oedd hon. Nododd yr astudiaeth ddichonoldeb broblemau gyda fferyllwyr yn glynu wrth y dyraniadau ar hap, gan gredu bod cymorth ymddygiad yn rhy bwysig i beidio â'i roi i bobl a neilltuwyd i'r dulliau hunangymorth. Penderfynwyd peidio â chynnal treial llawn gan nad oedd yr ymyriad yn ymarferol oherwydd anhawster recriwtio, hap-ddosbarthu fel y bwriadwyd yn arwain at anghydbwysedd yn nodweddion cyfranogwyr ar y llinell sylfaen, cyfranogwyr yn rhoi'r gorau i'r broses ac ymgysylltiad fferyllwyr a oedd yn cyflwyno'r ymyriad. Roedd fferyllwyr yn anghyfforddus yn rhoi cyfranogwyr ar hap ac yn gweld rhoi'r gorau iddi'n sydyn yn nod gwell, sy'n tynnu sylw at yr her o ymchwilio i ddulliau amgen mewn lleoliadau byd go iawn.

Bwriad **Guo et al. (2023)** oedd gwerthuso effaith samplu therapi disodli nicotin (lle darparwyd cyflenwad cyfyngedig o therapi disodli nicotin i gyfranogwyr) ynghyd â chymorth ymddygiad amser real personol trwy negeseuon gwib a sgwrsfot o'u cymharu â negeseuon SMS yn cynnwys cyngor iechyd cyffredinol dros 3 mis ar roi'r gorau i ysmegu yn Hong Kong. Ni ddisgrifiwyd unrhyw feini prawf cymhwysedd yn ymwneud â chymhelliant cyfranogwyr i leihau ysmegu neu roi'r gorau iddi. Cafodd y grwpiau ymyriad a rheoli gyngor byr i ddechrau, a oedd yn cynnwys cyngor i roi'r



gorau iddi ar unwaith gan ddefnyddio therapi disodli nicotin neu wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu. Roedd yr ymyriad yn cynnwys wythnos o therapi disodli nicotin am ddim ynghyd â negeseuon gwib wedi'u personoli yn ôl parodrwydd sylfaenol i roi'r gorau iddi a'r dyddiad targed rhoi'r gorau iddi. Roedd yn cynnwys pynciau fel gwybodaeth a sgiliau rhoi'r gorau iddi, manteision rhoi'r gorau iddi, strategaethau i reoli'r awydd i ysmegu er hunan-effeithiolrwydd, a gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu. Cafodd amserlenni negeseuon eu personoli yn ôl parodrwydd sylfaenol i roi'r gorau iddi a'r dyddiad targed rhoi'r gorau iddi (os cafodd un ei bennu). Anfonwyd cyfanswm o 6 nodyn atgoffa gan y sgwrsfot bob pythefnos dros 12 wythnos. Atebodd y sgwrsfot ymholiadau cyffredin yn ymwneud â dulliau rhoi'r gorau iddi tebyg i ymatal, rheoli chwantau, hunan-effeithiolrwydd i roi'r gorau iddi, a chynhyrchion tybaco newydd. Derbyniodd cyfranogwyr yn y grŵp rheoli negeseuon SMS rheolaidd ynghylch ffyrdd iach o fyw ar amllder tebyg i'r grŵp ymyriad. Gofynnwyd i gyfranogwyr geisio rhoi'r gorau iddi erbyn 12 wythnos. Cadarnhawyd lefel ymatal 6 a 12 mis ar ôl y llinell sylfaen gan ddefnyddio mesuriadau CO wedi'i anadlu allan.

Ar gyfer y canlyniad *lleihau ysmegu*, nid oedd unrhyw dystiolaeth ystadegol arwyddocaol o effaith ar ôl 6 na 12 mis. Roedd cyfanswm o 19.7% o gyfranogwyr yn y grŵp ymyriad wedi haneru nifer y sigarêts wedi'u hysmygu y dydd o'u nifer cychwynnol ar ôl chwe mis o'i gymharu â 17.8% o gyfranogwyr yn y grŵp rheoli (OR= 1.13; CH 95%: 0.75 to 1.71). Roedd cyfanswm o 26.9% o gyfranogwyr yn y grŵp ymyriad wedi haneru nifer y sigarêts wedi'u hysmygu y dydd o'u nifer cychwynnol ar ôl 12 mis, o'i gymharu â 22.3% o'r grŵp rheoli (OR= 1.28; CH 95%: 0.88 i 1.85).

Ar gyfer y canlyniad *rhoi'r gorau i ysmegu*, ar ôl 6 mis, roedd 47.0% o'i gymharu â 38.0% wedi gwneud ymgais wedi'i hunan-adrodd i roi'r gorau iddi yn y grŵp ymyriad a'r grŵp rheoli, a oedd yn ystadegol arwyddocaol (OR=1.45; CH 95%=1.06 i 1.97; p=0.019). Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth ystadegol arwyddocaol ychwaith o effaith ar lefel ymatal wedi'i dilysu trwy fesuriadau CO wedi'i anadlu allan ar ôl 6 neu 12 mis. Dim ond 3.9% a 5.4% o gyfranogwyr yn y grŵp ymyriad a gafodd eu datgan yn rhai a oedd wedi ymatal, diolch i fesurau wedi'u dilysu ar ôl 6 a 12 mis. Roedd hyn yn debyg i'r grŵp rheoli - y ffigurau ar ei gyfer oedd 3.0% a 4.5% ar ôl 6 a 12 mis (6 mis OR= 1.31; CH 95%= 0.57 i 3.04; 12 mis OR= 1.21; CH 95%= 0.60 i 2.45).

I grynhoi, roedd dystiolaeth bod cyfuno samplu therapi disodli nicotin a negeseuon personol o'u cymharu â negeseuon iechyd cyffredinol yn cynyddu'r tebygolrwydd o geisio rhoi'r gorau iddi o fewn 6 mis. Ond ni arweiniodd hyn at leihau ysmegu'n fwy na chyfraddau ymatal wedi'u dilysu ar ôl 6 neu 12 mis. Ystyriwyd bod yr astudiaeth hon o ansawdd rhesymol. Roedd hi wedi'i chyfyngu gan ddiffyg dallu a'r cyfuniad o negeseuon personol gyda sampl 1 wythnos o therapi disodli nicotin, sy'n atal mesur effeithiolrwydd (neu ddiffyg) cydrannau ymyriad unigol.

Cymharodd **Hatsukami et al. (2020)** ysmegu arferol ag ymyriad lleihau lle na ofynnwyd i ysmegwyr roi'r gorau iddi ond yn hytrach cawsant eu cyfarwyddo a'u cymell yn ariannol i gyfnewid ysmegu sigarêts yn llwyr am therapi disodli nicotin sy'n gweithredu'n gyflym (gwm nicotin neu losin 4mg o'u dewis a'i (d)itradu i 2mg os profwyd sgil-effeithiau andwyol). Cafodd cyfranogwyr yn y grŵp therapi disodli nicotin gwnsela byr hefyd ar sut i osgoi ysmegu sigarêts. Roedd unigolion yn gymwys i gael eu cynnwys os nad oeddent wedi gwneud ymgais ddifrifol i roi'r gorau i ysmegu yn ystod y 3 mis diwethaf ac nad oeddent yn bwriadu rhoi'r gorau i ysmegu o fewn y 3 mis nesaf. Mesurwyd y canlyniadau gan ddefnyddio amrywiol fiomarcwyr, a gafodd eu defnyddio i wirio cysylltiad â thybaco, gan gynnwys CO wedi'i anadlu allan a gafodd ei gasglu ym mhob ymweliad.



Ar gyfer y canlyniad *lleihau ysmegu*, roedd rhywfaint o dystiolaeth ddisgrifiadol bod cyfnewid ysmegu'n llwyr am therapi disodli nicotin (CS-NRT) wedi lleihau nifer y sigaréts wedi'u hunan-adrodd y dydd dros fwy nag 8 wythnos (Canolrif (isafswm/uchafswm) 9.6 (0.9 i 40.7) o'i gymharu ag ysmegu arferol (Canolrif (isafswm/uchafswm) 0.7 [-3.6 i 12.0]), er nad oes cymhariaeth uniongyrchol o ganolrifau'r grŵp wedi'i hadrodd. Cafodd cyfraddau lleihau ysmegu eu dilysu gan CO wedi'i anadlu allan bob wythnos ar gyfer y ddau grŵp. Ni adroddir ar unrhyw gymhariaeth ystadegol uniongyrchol o grwpiau, ond roedd y mesurau CO wedi'u dilysu yn sylweddol wahanol ar ôl 8 wythnos o'u cymharu â'r llinell sylfaen ar gyfer y grŵp therapi disodli nicotin, ond nid ar gyfer y grŵp rheoli. Roedd y gwahaniaethau wedi'u dangos rhwng grwpiau ar gyfer newidiadau mewn CO yn llai na'r effaith a gafodd ei gweld ar gyfer data wedi'u hunan-adrodd.

Ar gyfer y canlyniad *rhoi'r gorau i ysmegu*, llwyddodd 17% o gyfranogwyr yn y grŵp therapi disodli nicotin i ymatal am 7 diwrnod. Cafodd hyn ei ddilysu gan CO wedi'i anadlu allan ar ôl 8 wythnos. Ni adroddwyd ar ffigurau tebyg ar gyfer y grwpiau ysmegu arferol, ac felly mae'r gymhariaeth o'r canlyniad hwn yn anhysbys.

I grynhoi, mae tystiolaeth ddisgrifiadol yn cefnogi bod cyfnewid ysmegu'n llwyr am therapi disodli nicotin wedi arwain at ostyngiadau mwy mewn ysmegu wedi'i hunan-adrodd ac i raddau llai mewn CO wedi'i anadlu allan wedi'i ddilysu yn wythnos 8, o'i gymharu â'r grŵp rheoli. Y cyfraddau ymatal oedd 17% ar ôl 8 wythnos ar gyfer y grŵp ymyriad (cyfnewid yn llwyr am therapi disodli nicotin) ond ni chawsant eu hadrodd ar gyfer y grŵp rheoli. Mae gwahaniaethau llai ar gyfer mesurau carbon monocsid yn awgrymu ei bod yn anodd cyfnewid yn llwyr a bod y gwahaniaethau rhwng y grwpiau, yn seiliedig ar sigaréts wedi'u hunan-adrodd y dydd, wedi'u gorliwio.

Y papur hwn oedd â'r nifer fwyaf o broblemau ansawdd o'r holl astudiaethau wedi'u cynnwys yn yr adolygiad. Ni ddarparwyd gwybodaeth am ddull hap-ddosbarthu cyfranogwyr. Nid oedd y dadansoddiadau wedi ystyried y gwahaniaeth mewn cyfraddau tynnu'n ôl rhwng grwpiau. Ni ddarparwyd cywirdeb (cyfyngau hyder 95%) ar gyfer ein canlyniadau o ddiddordeb. Roedd adrodd ar ganlyniadau yn anghyflawn ac ni chymharwyd parau ar gyfer yr holl ganlyniadau ar gyfer y grŵp therapi disodli nicotin o'i gymharu â'r grŵp ysmegu arferol. Felly, nid oedd yn bosibl pennu sicrwydd unrhyw wahaniaethau wedi'u gweld rhwng y ddau grŵp.

Asesodd **Zhao et al. (2021)** ymarferoldeb ymyriad seiliedig ar sgwrs symudol ynghyd â samplu therapi disodli nicotin ar lefel ymatal ymhlith ysmegwyr sy'n byw yn Hong Kong dros 2 fis. Ni ddisgrifiwyd unrhyw feini prawf cymhwysedd yn ymwneud â chymhelliant cyfranogwyr i leihau ysmegu neu roi'r gorau iddi. Derbyniodd pob cyfranogwr therapi disodli nicotin, cyngor byr ar roi'r gorau i ysmegu, ac atgyfeiriad gweithredol i wasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu. Derbyniodd cyfranogwyr yn y grŵp ymyriad negeseuon testun personol a chymorth seiliedig ar sgwrs drwy negeseuon gwib hefyd. Cafodd pob neges ei phersonoli yn ôl rhyw, oedran a phatrwm ysmegu'r cyfranogwr. Roedd cynnwys negeseuon a dulliau cychwyn a hwyluso sgwrs yn debyg i Guo *et al.* (2023). Cawsant alwadau ffôn rhoi hwb ar ôl 4 ac 8 wythnos hefyd. Derbyniodd y grŵp rheoli negeseuon testun cyffredinol am roi'r gorau i ysmegu bron mor aml â'r grŵp ymyriad. Fodd bynnag, ni ymatebodd cwyselwyr i unrhyw negeseuon gan gyfranogwyr ac ni roddwyd galwad ffôn rhoi hwb yn ystod yr apwyntiad dilynol. Ni chafodd unrhyw darged penodol ar gyfer lleihau na rhoi'r gorau iddi ei ddisgrifio. Hunan-adroddwyd y canlyniadau a'u dilysu gan ddefnyddio CO wedi'i anadlu allan ar ôl 3 a 6 mis.



Ar gyfer y canlyniad *lleihau ysmegu*, nid oedd unrhyw dystiolaeth o wahaniaeth mewn haneru'r ysmegu ar y llinell sylfaen wedi'i hunan-adrodd ar ôl 3 mis, gyda 24.2% o'r grŵp ymyriad o'i gymharu â 24.6% o'r grŵp rheoli yn ysmegu $\geq 50\%$ yn llai na'r llinell sylfaen (cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu=0.80; CH 95%=0.32 i 2.01; $p=0.64$). Ar ôl 6 mis, roedd 32.3% o gyfranogwyr yn y grŵp ymyriad a 19.3% o gyfranogwyr yn y grŵp rheoli yn ysmegu $\geq 50\%$ yn llai na'r llinell sylfaen, nad oedd yn wahaniaeth ystadegol arwyddocaol ar ôl addasu (cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu=1.74; CH 95%=0.71 i 4.26; $p=0.22$).

Ar gyfer y canlyniad *rhoi'r gorau i ysmegu*, nid oedd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol mewn ymdrechion i roi'r gorau iddi, ymatal wedi'i hunan-adrodd nac ymatal wedi'i ddilysu unrhyw bryd. Cyfraddau ymatal wedi'u dilysu ar ôl 3 mis oedd 3.2% yn y grŵp ymyriad o'i gymharu ag 1.8% yn y grŵp rheoli (OR= 1.07; CH 95%=0.08 i 13.65; $p=0.960$) ac ar ôl 6 mis, y cyfraddau oedd 1.6% yn y grŵp ymyriad o'i gymharu â 0% yn y grŵp rheoli (OR heb ei amcangyfrif). Roedd cyfraddau ymatal wedi'u hunan-adrodd ychydig yn uwch, ond nid oedd yn sylweddol wahanol yn ystadegol ar ôl 3 mis (12.9% yn y grŵp ymyriad o'i gymharu â 10.5% yn y grŵp rheoli, cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu=1.12; CH 95%=0.34 i 3.71, $p=0.856$) a 6 mis (16.0% yn y grŵp ymyriad o'i gymharu â 5.3% yn y grŵp rheoli, cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu=2.82; CH 95%=0.70 i 11.30, $p=0.144$). Ar ôl 6 mis, roedd 90.3% o gyfranogwyr yn y grŵp ymyriad wedi ceisio rhoi'r gorau iddi o'i gymharu â 77.2% o gyfranogwyr yn y grŵp rheoli, nad oedd yn wahaniaeth ystadegol arwyddocaol (cymhareb tebygolrwydd wedi'i haddasu=2.61; CH 95%= 0.88 i 7.82; $p=0.085$).

I grynhoi, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod therapi disodli nicotin ochr yn ochr â negeseuon testun personol a chymorth seiliedig ar sgwrs o'u cymharu â negeseuon testun cyffredinol am roi'r gorau i ysmegu yn effeithio ar leihau ysmegu, rhoi'r gorau iddi neu ymdrechion i roi'r gorau iddi. Cyfyngwyd ar ansawdd yr astudiaeth gan nodweddion anghytbwys y llinell sylfaen gan gynnwys pwysigrwydd canfyddedig uwch o roi'r gorau i ysmegu yn y grŵp ymyriad a diffyg dallu'r grŵp ymyriad.

At ei gilydd, mae pedair astudiaeth o ansawdd gwaeth sy'n cyfuno therapi disodli nicotin â chymorth ymddygiad ar gyfer lleihau (Hatsukami *et al.* 2020), rhoi'r gorau iddi (Guo *et al.* 2023; Zhao *ac eraill.* 2021) neu gyfuniad o'r ddau (Farley *et al.* 2021) yn dangos ychydig o dystiolaeth sydd o effaith ar ganlyniadau lleihau ysmegu neu roi'r gorau iddi wedi'u dilysu. Fodd bynnag, fe wnaeth Guo *et al.* (2023) ganfod bod cyfranogwyr a oedd yn derbyn therapi disodli nicotin ynghyd â chymorth ymddygiad amser real personol drwy ymyriadau ffôn symudol 45% yn fwy tebygol o geisio rhoi'r gorau iddi eu hunain o'u cymharu â'r grŵp rheoli. Disgrifiodd Hatsukami *et al.* (2020) ostyngiadau mwy mewn ysmegu wedi'i hunan-adrodd, ac i raddau llai crynodiadau carbon monocsid ar gyfer cyfranogwyr a oedd yn cyfnewid ysmegu'n llwyr am therapi disodli nicotin sy'n gweithredu'n gyflym, gan awgrymu eto fod y gwahaniaethau mewn data wedi'u hunan-adrodd yn debygol o fod wedi'u gorliwio.

5 Trafodaeth

5.1 Crynodeb o'r dystiolaeth

Casglodd yr adolygiad hwn y dystiolaeth o effeithiolrwydd ar gyfer dulliau o leihau niwed ysmegu ymhlith ysmygwyr nad ydynt eto'n barod i ymrwymo i ddyddiad rhoi'r gorau iddi. Fe wnaethon ni gynnwys naw ymyriad gyda'r nod o leihau ysmegu neu leihau ysmegu cyn rhoi'r gorau iddi o'i gymharu â'r model 'rhoi'r gorau iddi'n sydyn' safonol presennol lle nad yw ysmygwyr yn lleihau ysmegu cyn eu dyddiad rhoi'r gorau iddi. Defnyddiodd yr ymyriadau a oedd wedi'u cynnwys amrywiol ddulliau cymorth ymddygiad ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â meddyginiaeth ar bresgripsiwn (Varenicline) neu therapi disodli nicotin. Daeth y dystiolaeth orau o effeithiolrwydd ar gyfer lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi o un treial aml-ganolfan mawr o ansawdd uwch o Varenicline o'i gymharu â phlasebo, a ragnodir ochr yn ochr â 12 wythnos o gymorth ymddygiad i leihau ysmegu, ac yna 12 wythnos o gymorth ymddygiad i roi'r gorau i ysmegu (Ebbert *et al.*, 2015). Roedd cyfranogwyr a gafodd Varenicline bedair gwaith yn fwy tebygol na'r rhai a gafodd blasebo o fod wedi cynnal ymatal parhaus wedi'i ddilysu ar ôl 6 mis. Dangosodd treialon eraill a oedd wedi'u cynnwys, a oedd yn amrywio o ran ansawdd a dulliau o'r ymyriad, dystiolaeth anghyson ar gyfer lleihau ysmegu a dim tystiolaeth o effeithiolrwydd ar gyfer canlyniadau rhoi'r gorau i ysmegu wedi'u dilysu. Mae'n hysbys bod dilysu cyfraddau lleihau ysmegu neu ymatal rhag ysmegu yn bwysig er mwyn osgoi amcangyfrifon effaith gormodol a welir yn gyffredin mewn mesurau canlyniadau wedi'u hunan-adrodd. Yn wir, dangosodd saith astudiaeth a oedd wedi'u cynnwys yn ein hadolygiad cyflym amcangyfrifon effaith mwy yn seiliedig ar ddata wedi'u hunan-adrodd o'u cymharu ag amcangyfrifon wedi'u dilysu gyda CO wedi'i anadlu allan. Roedd hyn felly'n ategu pwysigrwydd defnyddio biomarcwyr i gadarnhau effeithiolrwydd y mathau hyn o ymyriadau. (Farley *et al.*, 2017, Hatsukami *et al.*, 2020, Machulska *et al.*, 2017, Steinberg *et al.*, 2018, Taylor *et al.*, 2023, Weng *et al.*, 2020, Zhao *et al.*, 2021). Yn olaf, roedd yr holl dreialon mewn poblogaethau ysmygwyr cyffredinol nad oeddent yn barod i roi'r gorau iddi, felly mae'r dystiolaeth ar gyfer ymyriadau lleihau niwed ysmegu wedi'u targedu neu eu teilwra ymhlith poblogaethau penodol a ddiffinnir yn ôl oedran, safle economaidd-gymdeithasol neu iechyd, yn parhau i fod yn faes pwysig ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol.

Disgrifiodd y tair astudiaeth a ddefnyddiodd ddulliau cymorth ymddygiad yn unig ymyriadau gwahanol iawn a oedd yn canolbwyntio naill ai ar gyfuniad o nodau lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi (Taylor *et al.*, 2023) neu nodau rhoi'r gorau i ysmegu yn unig (Machulska *et al.*, 2021, Weng *et al.*, 2020). Ar y cyd, nid oedd y dystiolaeth wedi'i chynnwys ar gyfer ymyriadau cymorth ymddygiad yn cefnogi effaith barhaus ar leihau ysmegu na gwella cyfraddau rhoi'r gorau i ysmegu ac ymatal rhag ysmegu. Adroddodd Machulska *et al.*, (2021) a Taylor *et al.*, (2023) bod eu grwpiau ymyriad wedi lleihau ysmegu'n fwy ar adegau dilynol cynharach, ond aeth y gwahaniaethau'n llai dros amser ac ni welodd y naill astudiaeth na'r llall gyfraddau rhoi'r gorau i ysmegu gwell yn y grwpiau ymyriad o'u cymharu â grwpiau rheoli. Gwelodd Weng *et al.*, (2020) dystiolaeth o gyfraddau uwch o leihau ysmegu wedi'u hunan-adrodd erbyn 18 mis, ond nid ar adegau cynharach. Gan nad oedd mesurau lleihau yn Weng *et al.*, (2020) wedi'u dilysu, gallai hyn egluro'r canfyddiad anarferol. Er enghraifft, dim ond 4% i 6% oedd cyfraddau ymatal wedi'u dilysu ar ôl 18 mis ar draws grwpiau o'i gymharu â 15% i 18% a amcangyfrifwyd ar gyfer ymatal wedi'i hunan-adrodd. Felly mae'n debygol y bydd y gwahaniaeth yn yr amcangyfrifon lleihau ysmegu wedi'u hunan-adrodd ar ôl 18 mis yn annibynadwy (Weng *et al.*, 2020). Mae'r dystiolaeth o effeithiolrwydd dulliau ymddygiadol ar gyfer lleihau ysmegu yn ein hadolygiad yn cyferbynnu ag adolygiad Cochrane sy'n bodoli eisoes, a ganfu dystiolaeth sicrwydd uchel o effeithiolrwydd dulliau ymddygiadol (yn benodol cwnsela) ar gyfer

rhoi'r gorau i ysmegu (Hartman-Boyce *et al.*, 2021). Mewn 194 o dreialon, roedd cyfraddau ymatal wedi'u dilysu wedi gwella 44% (cyfwng credadwy 95% 22% i 70%) mewn treialon rhoi'r gorau i ysmegu ymddygiadol (Hartman Boyce *et al.*, 2021). Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau yn cysylltu â threialon lleihau ysmegu ymddygiad-yn-unig, ac o'r rhain dim ond 2 allan o 51 o dreialon a oedd wedi'u crynhoi yn Lindson *et al.*, (2019). Fel ein canfyddiadau ni, gwelwyd tystiolaeth amhenodol o effeithiolrwydd (CR=1.49, CH 95%=0.59 i 3.76). Gall y gwahaniaeth mewn effeithiolrwydd fod yn gysylltiedig â'r nifer fach o dreialon, amrywiaeth y dulliau ymddygiadol a gafodd eu defnyddio ar gyfer lleihau ysmegu hyd yn hyn neu gall awgrymu ei bod yn anoddach cyflawni ymatal rhag ysmegu trwy ymyriadau ymddygiadol yn unig i leihau ysmegu.

Darparodd pedair astudiaeth o ansawdd gwaeth a gyfunodd therapi disodli nicotin â chymorth ymddygiad ar gyfer lleihau (Hatsukami *et al.*, 2020), rhoi'r gorau i ysmegu (Guo *et al.*, 2023; Zhao *et al.*, 2021) neu gyfuniad o'r ddau (Farley *et al.*, 2021) dystiolaeth gyfyngedig o effaith ar ganlyniadau lleihau ysmegu neu roi'r gorau iddi wedi'u dilysu. Mae hyn yn cyferbynnu â thystiolaeth wedi'i chrynhoi gan Lindson-Hawley *et al.*, 2016 o ymyriadau lleihau yn unig a amcangyfrifodd o 8 treial bod therapi disodli nicotin yn effeithiol ar gyfer ysmegu o leiaf 50% yn llai na'r llinell sylfaen (CR=1.75, CH 95%= 1.44 i 2.13); a rhoi'r gorau i ysmegu (10% yn y grŵp ymyriad o'i gymharu â 5% yn y grŵp rheoli, CR=1.87, CH 95%=1.43 i 2.44) (Lindson-Hawley *et al.*, 2016). Yn ogystal, amcangyfrifodd 7 ymyriad a oedd yn cyfuno nodau lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi fod therapi disodli nicotin sy'n gweithredu'n gyflym wedi mwy na dyblu'r tebygolrwydd o ymatal wedi'i ddilysu ar ôl 6 mis (CR=2.56 CH 95%=1.93 i 3.39) (Lindson *et al.*, 2019). Ar ben hynny, mae therapi disodli nicotin wedi'i hen sefydlu fel dull effeithiol o roi'r gorau i ysmegu (CR=1.55, CH 95%=1.49 i 1.61) (Hartman-Boyce *et al.*, 2018). Er bod effeithiolrwydd therapi disodli nicotin mewn treialon lleihau ysmegu yn debyg o ran maint i dreialon rhoi'r gorau i ysmegu, mae cyffredinolrwydd absoliwt ymatal mewn treialon lleihau ysmegu gyda therapi disodli nicotin yn is, sef dim ond 2 i 6%, o'i gymharu â 10 i 16% mewn treialon rhoi'r gorau i ysmegu (Lindson-Hawley, *et al.*, 2016, Lindson *et al.*, 2019, Hartman-Boyce *et al.*, 2018). Mae cyfranogwyr mewn treialon lleihau â llai o gymhelliant i roi'r gorau iddi, a all esbonio'r cyfraddau ymatal is wrth ddefnyddio therapi disodli nicotin o'u cymharu â threialon rhoi'r gorau iddi. Er y gall ymyriadau lleihau sy'n cynnwys therapi disodli nicotin fod yn effeithiol ar gyfer cynyddu cyfraddau ymatal, mae'r ganran absoliwt o ysmygwyr sy'n llwyddo i ymatal yn is nag ar gyfer ymyriadau rhoi'r gorau i ysmegu cymharol, a all olygu bod effeithiau niweidiol ysmegu yn cael eu lleihau i raddau llai.

Gallai cefnogi ymyriadau ymddygiadol gyda Varenicline fod yn ddull pwerus o leihau niwed ysmegu. Roedd treialon yn ein hadolygiad cyflym a oedd yn adrodd ar effaith Varenicline ynghyd â chymorth ymddygiad yn gyson ar y cyd o ran cefnogi cyfraddau lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi uwch yn y grŵp ymyriad o'i gymharu â'r grŵp rheoli, ond roeddent yn anghyson o ran cywirdeb yr effeithiau. Roedd y ddau dreial yn cyfuno 1mg o Varenicline ddwywaith y dydd ynghyd â chwrsela ac yn adrodd am ganlyniadau wedi'u dilysu. Roedd Ebbert *et al.*, (2015) yn dreial aml-ganolfan mawr o ymyriad lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi cyfunol 24 wythnos ymhlith cyfranogwyr a oedd yn fodlon pennu dyddiad rhoi'r gorau iddi o fewn 3 mis, a adroddodd gyfradd lleihau ysmegu bron dwywaith yn uwch (26 o'i gymharu â 15%, CR= 1.8, CH 95%= 1.4 i 2.2) a chyfradd ymatal bedair gwaith yn uwch (32 o'i gymharu â 7%, CR= 4.6, CH 95%= 3.5 i 6.1) ar gyfer y rhai sy'n cymryd Varenicline. Er bod Steinberg *et al.*, (2018), yn dreial bach 4 wythnos o hyd o ymyriad lleihau yn unig ymhlith cyfranogwyr a oedd yn fodlon lleihau ysmegu ond ddim am roi'r gorau iddi, adroddodd am gyfradd lleihau wedi'i dyblu debyg (38 o'i gymharu â 20%, OR= 2.45, CH 95%= 0.53 i 11.38) ar gyfer y rhai sy'n cymryd Varenicline, er nad yw'n ystadegol arwyddocaol. Roedd Ebbert



et al., (2015) yn cynnwys cyfranogwyr a oedd yn fwy parod i ymrwymo i roi'r gorau i ysmegu, darparodd gymorth ymddygiad ar gyfer rhoi'r gorau iddi, a chyflwynodd ymyriad hirach na Steinberg *et al.*, (2018). Gall gwahaniaethau o'r fath mewn cymhelliant i roi'r gorau iddi, hyd yr ymyriad, neu nodau'r ymyriad esbonio'r gwahaniaeth yng nghywirdeb yr effeithiau a welwyd. Roedd adolygiad systematig o dreialon Varenicline ymhlith ysmygwyr nad oeddent yn barod i roi'r gorau i ddefnyddio tybaco yn cynnwys pum treial (Lopes *et al.*, 2022), ac ni chafodd tri ohonynt eu cynnwys yn ein hadolygiad gan eu bod wedi'u cyhoeddi cyn 2015. Canfu Lopes *et al.*, (2022), fod cyfuno Ebbert *et al.*, (2015) â dau dreial cynharach, wedi cynhyrchu tystiolaeth sicrwydd uchel bod ysmygwyr a gymerodd Varenicline o'i gymharu â phlasebo wedi dyblu'r gyfradd ymatal wedi'i dilysu ar ôl 6 mis (CR=2.00 CH 95%=1.70, 2.35). Mae'r effaith amcangyfrifedig ar ymatal rhag Varenicline pan gaiff ei ddefnyddio mewn treialon lleihau ysmegu yn debyg o ran termau cymharol ac absoliwt i'r effaith gronedig o 41 o dreialon rhoi'r gorau iddi (23 o'i gymharu â 10%, CR= 2.32, CH 95%= 2.15, 2.51) (Livingstone-Banks *et al.*, 2023). Gallai ymchwil pellach roi eglurder ar yr ansicrwydd heb ei benderfynu, ond mae Varenicline yn cynnig y potensial i sicrhau cyfraddau ymatal tebyg mewn ymyriadau sy'n cyfuno nodau lleihau ysmegu a rhoi'r gorau iddi ymhlith ysmygwyr nad ydynt yn fodlon ymrwymo ar unwaith, i'r rheiny a gafodd eu sicrhau mewn treialon rhoi'r gorau i ysmegu sy'n cynnwys ysmygwyr sydd â mwy o gymhelliant i roi'r gorau iddi. Mae'r cynnydd wedi'i weld mewn ymatal yn gyfraniad pwysig at leihau effeithiau niweidiol ysmegu.

Ein canlyniad eilaidd o ddiddordeb oedd cost-effeithiolrwydd. Dim ond dwy astudiaeth a ganfuom a oedd yn adrodd ar gost-effeithiolrwydd eu hymyriadau lleihau niwed ysmegu (Taylor *et al.*, 2023; Weng *et al.*, 2020), ac nid oedd y naill na'r llall yn adrodd tystiolaeth bod eu hymyriadau'n effeithiol felly nid oedd tystiolaeth o gost-effeithiolrwydd ychwaith.

5.2 Cryfderau a chyfyngiadau'r dystiolaeth sydd ar gael

Roedd ein hadolygiad cyflym yn cynnwys naw hap-dreial dan reolaeth, ac ystyriwyd bod y rhan fwyaf ohonynt o ansawdd da, er bod amrywiad. Roedd treialon wedi'u cynllunio'n dda gyda neilltuo ar hap, dallu aseswyr i driniaeth, nodweddion grŵp cytbwys, triniaeth gyfartal ar draws grwpiau heblaw am y grŵp ymyriad, adrodd cynhwysfawr ar amcangyfrifon effaith a chywirdeb. Roedd astudiaethau o ansawdd is (Farley *et al.*, 2017; Hatsukami *et al.*, 2020, Machulska *et al.*, 2021) mewn perygl o ragfarn perfformiad oherwydd diffyg dallu cyfranogwyr ac ymchwilwyr i ddyraniad triniaeth, sy'n broblem gynhenid sy'n gyffredin i bob ymyriad ymddygiadol. Dim ond un astudiaeth (Taylor *et al.*, 2023) a ddarparodd dystiolaeth ar gost-effeithiolrwydd a niwed, sy'n golygu nad yw wedi bod yn bosibl barnu'r cydbwysedd rhwng manteision, costau a niwed. Ystyriwyd bod canlyniadau chwe astudiaeth yn berthnasol i boblogaeth Cymru oherwydd eu bod yn profi ymyriadau y gallai Iechyd Cyhoeddus Cymru eu rhoi ar waith (Ebbert *et al.*, 2015; Hatsukami *et al.*, 2020; Steinberg *et al.*, 2018; Taylor *et al.*, 2023; Weng *et al.*, 2020). Er bod Farley *et al.* (2017) wedi'i leoli yn y DU, roedd problemau gyda hap-ddosbarthu cyfranogwyr a chyflwyno'r ymyriad yn golygu nad oedd y broses ymchwil yn ddibynadwy ac felly nid oes modd cyffredinol i'r canfyddiadau. Profodd Guo *et al.*, 2023; Machulska *et al.*, 2017; a Zhao *et al.*, 2021, ymyriadau seiliedig ar dechnoleg yn cynnwys realiti rhithwir, negeseuon gwib gyda sgwrsfot a negeseuon personol wedi'u datblygu mewn iaith nad yw'n Gymraeg na Saesneg. Ystyriwyd, felly, nad oeddent yn debygol o fod yn hawdd eu cymhwyso i'w gweithredu yng Nghymru.

Ar draws yr holl ymyriadau rydym wedi'u cynnwys yn ein hadolygiad cyflym, roedd saith astudiaeth yn cynnwys canlyniadau wedi'u hunan-adrodd a'u dilysu yn seiliedig ar lefelau CO wedi'i anadlu



